SIR FYNWY

MONMOUTHSHIRE




# Adroddiad Blynyddol Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Fynwy 2019

MON MOUTH SHIRE

# Cynnwys

## Cynnwys


Cynnwys ..... 2
Cynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ..... 3
Troi camau llesiant yn weithredoedd ..... 4
Gosod blaenoriaethau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ..... 4
Cymhwyso'r pum ffordd o weithio ..... 5
Amcanion Llesiant – Cynnydd hyd yma ..... 8
Amcan Llesiant 1 - Darparu'r dechrau gorau posib mewn bywyd i blant a phobl ifanc ..... 8
Amcan llesiant 2 - Ymateb i'r her sy'n gysylltiedig â newid demograffig ..... 13
Amcan Llesiant 3 - Amddiffyn a gwella gwytnwch ein hamgylchedd naturiol tra rhwystrir ac addasir i effaith newid hinsawdd ..... 19
Amcan Llesiant 4 - Datblygu cyfleoedd i gymunedau a busnesau fod yn rhan o sir sydd â chysylltiadau da ac sy'n ffynnu'n economaidd. ..... 23
Craffu ar Amcanion Llesiant ..... 26
Partneriaid y BGC yn gweithio'n well gyda'u gilydd ..... 27
Gwaith Rhanbarthol ..... 31
Cymunedau Hapus ..... 31
Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) yn mesur Llesiant ..... 32
Dyfodol Gwent ..... 32
Climate Ready Gwent: ..... 33
Sut mae pethau'n mynd? ..... 35
Dangosyddion Cenedlaethol ..... 35
Diweddaru'r Cynllun Llesiant ..... 35
Camau Nesaf ..... 39

# Cynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Ym mis Mai 2018, mabwysiadodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, sef partneriaeth strategol cyrff cyhoeddus Sir Fynwy, ei Gynllun Llesiant yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Fe gytunwyd ar gyd-bwrpas sef i **adeiladu cymunedau cynaliadwy a chydnerth**, ar dri dyhead trawsbynciol a fyddai'n cael eu gweithredu drwy gyfrwng yr holl amcanion a chamau, a phedwar amcan llesiant – dau sy'n ymwneud â phobl a dau sy'n ymwneud â'r lle, fel y dangosir yn y tabl canlynol:

| **Pwrpas** | **Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy a Chydnerth** | |
|---|---|---|
| **Ein dyhead yw:** | Lleihau anghydraddoldebau rhwng cymunedau ac o fewn cymunedau.<br>Cefnogi a diogelu oedolion bregus<br>Sylweddoli faint o fuddion y mae'r amgylchedd naturiol yn eu cynnig | |
| **Ein Amcanion Llesiant yw:** | *Pobl / Dinasyddion* | *Lle / Cymunedau* |
| | Darparu'r dechrau gorau posib mewn bywyd i blant a phobl ifanc | Amddiffyn a gwella gwytnwch ein hamgylchedd naturiol tra rhwystrir ac addasir i effaith newid hinsawdd |
| | Ymateb i'r her sy'n gysylltiedig â newid demograffig | Datblygu cyfleoedd i gymunedau a busnesau fod yn rhan o sir sydd â chysylltiadau da ac sy'n ffynnu'n economaidd. |

Gwnaethpwyd gwaith cefndirol helaeth cyn mynd ati i lunio'r cynllun, ceir crynodeb o'r gwaith isod:

**Asesiad Llesiant**

- Wedi ei ddatblygu drwy ymgysylltiad cymunedol helaeth gan ddefnyddio proses Ein Sir Fynwy a dadansoddiad manwl o ddata, ystadegau, ymchwil a pholisi
- Canolbwyntiodd yr asesiad ar lesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ar draws y sir gyfan, yn ogystal â'r 5 ardal ddaearyddol y cyfieirir atynt yn yr Asesiad Llesiant

**Cynllun Llesiant Draff**

- Tynnodd yr asesiad llesiant sylw at nifer o asedau y gellir adeiladu arnynt, yn ogystal â nifer o broblemau a heriau sydd angen sylw
- Hysbysodd yr asesiad llesiant, ynghyd â dadansoddiad pellach a gwybodeath bellach a gasglwyd fel rhan o'r broses o osod yr amcanion, ddatblygiad cynllun llesiant lleol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n amlinellu'r amcanion lleol a'r camau y byddant yn eu cymryd er mwyn eu cyflawni
- Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cynllun drafft a'r amcanion

**Cynllun Llesiant**

- Cafwyd cefnogaeth i'r amcanion a'r camau trwy'r ymgynghoriad
- Cytunwyd ar y cynllun llesiant ac fe'i mabwysiadwyd gan y BGC a'r sefydliadau partner ym mis Mai 2018
- Aeth gwaith rhagddo, ar y cyd rhwng y BGC a'r partneriaid, ar ddatblygu cynllun gweithredu i gyflawni'r camau

Mae'r adroddiad yma'n amlinellu'r cynnydd y mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi ei wneud hyd yma tuag at gyflawni'r amcanion sydd wedi eu gosod yn y Cynllun Llesiant.

## Troi camau llesiant yn weithredoedd

Amcan y 'camau' y cyfeirir atynt yn y Cynllun Llesiant yw mynd i'r afael â rhai o'r prif heriau sy'n wynebu llesiant yn Sir Fynwy, yn ogystal â rhoi sylw i'r prif gyfleoedd sy'n codi. O ganlyniad, mae'r camau fel arfer yn gymhleth, a does dim ffordd syml na chyflym o'u cyflawni.

Mae un o'r sefydliadau sy'n bartneriaid ar y BGC wedi eu penodi fel arweinydd pob cam, a chanddynt hwy mae'r cyfrifoldeb o edrych ar y cam mewn mwy o fanylder a chychwyn ar y gwaith o benderfynu ar y gweithredoedd sydd angen eu cyflawni. Yna bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, yn eu tro, yn blaenoriaethu'r gweithredoedd hynny, ac yn penderfynu ar y ffordd orau o'u cyflawni – unai drwy eu cyflawni gan y BGC neu drwy eu comisiynu.

Ar sail y dystiolaeth a gasglwyd yn yr Asesiad Llesiant a'r Cynllun Llesiant, mae pob partner wedi bod wrthi'n datblygu ac ehangu'r sail tystiolaeth yma, ac wedi bod yn edrych ar atebion posib a fyddai'n mynd â ni gam yn nes tuag at gyflawni'r canlyniadau y cyfeirir atynt yn y cynllun. Fel rhan o'r gwaith yma, mae gweithdai wedi cael eu cynnal ac mae ymgysylltu wedi digwydd gyda phartneriaid, sefydliadau a grwpiau cymunedol eraill.

## Gosod blaenoriaethau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Mae'n bwysig bod y weledigaeth sy'n cael ei gosod mewn perthynas â phob un o'r camau'n adlewyrchu'r lefel briodol o uchelgais ac eglurder er mwyn gwneud yn siŵr ei bod yn cael cefnogaeth yr holl bartneriaid. Gofynnir i bob sefydliad ddarparu adnoddau a dangos brwdfrydedd tuag at y camau yma, ac mae'n bwysig gwneud yn siŵr eu bod yn canolbwyntio ar y pethau iawn.

Roedd blaenoriaethu'r camau'n angenrheidiol, gan nad oedd posib i'r partneriaid weithio ar bob un o'r 19 cam ar unwaith. Mae rhai o'r camau yn dal yn y cyfnod archwilio a datblygu, tra mae eraill wedi symud ymlaen ymhellach gyda chynlluniau peilot yn cae eu paratoi. Yn dilyn adolygiad o'r holl gamau, blaenoriaethodd y BGC y chwe maes canlynol fel meysydd y dylid canolbwyntio arnynt yn ystod 2018 a 2019. Ceir mwy o fanylion am y cynnydd sydd wedi ei wneud yn erbyn y camau yma yn yr adran "Amcanion Llesiant – cynnydd hyd yma".

- Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (PNP) – arweinir gan Heddlu Gwent
- Iechyd meddwl plant a phobl ifanc – arweinir gan Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB)
- Gwella gwytnwch ecosystemau gan weithio ar raddfa ehangach – arweinir gan Cyfoeth Naturiol Cymru
- Hybu dinasyddiaeth weithredol – arweinir gan Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent (CMGG)
- Ail-edrych ar y ddarpariaeth o dai, a'r math o dai sydd ar gael – arweinir gan Gyngor Sir Fynwy, gan weithio gyda landlordiaid cofrestredig
- Datblygu opsiynau sy'n seiliedig ar dechnoleg er mwyn gwella trafnidiaeth mewn ardaloedd gwledig – arweinir gan Gyngor Sir Fynwy

# Cymhwyso'r pum ffordd o weithio

Trwy gydol y broses o ddatblygu'r Asesiad Llesiant, creu'r Cynllun Llesiant a gweithio tuag at gyflawni'r amcanion, mae'r pum ffordd o weithio, sy'n cael eu gosod gan y Ddeddf, wedi cael eu defnyddio. Ac maent yn parhau i gael eu defnyddio wrth ddatblygu'r camau gweithredu fydd yn cyflawni'r cam. Rhoddir ystyriaeth i:

**Yr hirdymor**

Wrth eu natur, mae'r camau sy'n cael eu gosod yn y Cynllun Llesiant, yn aml yn ymdrin â materion cymhleth na ellir eu datrys yn y tymor byr. Mae'r Cynllun Llesiant yn bwriadu canolbwyntio ar yr heriau tymor-hir yma tra'n sicrhau nad yw hyn yn cyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion eu hunain. Rydym wedi elwa o'r gwaith Gwent Futures sy'n helpu i adnabod rhai o'r tueddiadau y bydd Sir Fynwy'n eu wynebu'n y dyfodol. Cynhaliwyd gweithdy ar gyfer partneriaid y BGC a oedd yn edrych ar oblygiadau penodol y gwaith fydd yn cael ei wneud i gyflawni rhai o'r gamau'r Cynllun Llesiant, gan wneud yn siŵr bod tueddiadau hirdymor yn cael eu hystyried trwy gydol y gwaith ar y cam.

**Cynnwys**

Mae cynnwys pobl yn allweddol er mwyn datblygu camau'r Cynllun Llesiant. Ar gyfer pob cam, mae gofyn i bartneriaid gynnwys y cyhoedd, defnyddwyr gwasanaeth a sefydliadau. Gwelwyd enghraifft dda o hyn wrth i ddigwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned gael eu cynnal ar draws y sir fel rhan o'r gwaith i gyflawni'r cam Hybu Dinasyddiaeth Weithredol. Nod y digwyddiadau yma oedd dod â phreswylwyr a grwpiau lleol ynghyd er mwyn adeiladu perthnasau newydd a chryfhau rhwydweithiau oedd yn bodoli'n barod er budd yr ardaloedd lleol.

**Cydweithio**

Dim ond drwy gydweithio gydag eraill y gellir cyflawni nifer o gamau'r cynllun yn effeithiol. Er enghraifft, fel rhan o'r gwaith ar Drafnidiaeth Gwledig, rydym wedi gweithio ar y cyd â chwmnïau sector preifat sy'n medru cynnig opsiynau arloesol, yn ogystal â gweithio gyda'r trydydd sector. Enghraifft arall yw'r gweithdy ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod a gynhaliwyd er mwyn casglu barn asiantaethau gwahanol ar y materion sy'n ein wynebu, a defnyddio'r wybodaeth yma fel sail i symud y cam yn ei flaen.

**Atal**

Mae'r egwyddor atal yn rhan sylfaenol o holl gamau'r Cynllun Llesiant. Ar gyfer yr holl gamau mae partneriaid wedi gorfod ystyried a deall beth yw gwraidd y broblem yr ymdrinnir â hi, ac mae'n rhaid iddynt barhau i wneud hyn er mwyn gwneud yn siŵr bod y broblem yn cael ei hatal rhag digwydd yn y dyfodol, gwneud yn siŵr ein bod yn dod yn o hyd i atebion ac yn ymyrryd yn gynnar ar yr amser iawn (ceisio gweithredu'n gynnar yn hytrach nag aros nes mae trothwy argyfwng wedi ei gyrraedd). Trwy gydol y broses o ddatblygu'r camau, defnyddiwyd y dull "diemwnt dwbl" er mwyn "darganfod", "diffinio" a "chategoreiddio" materion, cyn symud ymlaen i "ddatblygu" cyfleoedd a gweithio tuag at "atebion" (gweler tud 11-12 o Well-being Plan Annex Mae'r pwyslais yma ar ddeall gwraidd yr heriau, cyn symud ymlaen i'w datrys, yn golygu bod gennym ddealltwriaeth dda o sut i atal problemau rhag codi, a bydd hyn yn atal canolbwyntio ar ymdrin â'r symptomau yn unig.

**Integreiddio**

Mae'r Bwrdd Rhaglen yn grŵp sy'n eistedd o dan y BGC. Mae'r Bwrdd Rhaglen yn cael gwybod am bob cam sy'n cael ei gymryd o dan y Cynllun Llesiant. Golyga hyn bod yr holl bartneriaid ac arweinwyr camau o gwmpas yr un bwrdd, yn gweld ble mae synergedd ac yn adnabod cyfleoedd i weithio mewn dull mwy cyson ac integredig. Golyga hyn bod y Bwrdd Rhaglen mewn sefyllfa dda i weld sut mae camau'r amcanion llesiant yn integreiddio. Os oes unrhyw wrthdaro, gallent benderfynu ar sut i ddatrys, rheoli a lleihau effaith y gwrthdaro yma. Bydd y gwaith sy'n cael ei wneud ar gam yn cael effaith ar gamau eraill, ac mae rhai o'r camau'n cael eu symud ymlaen ar y cyd er mwyn sicrhau eu bod yn integreiddio'n effeithiol a bod dull gweithredu cyson yn cael ei ddefnyddio. Mae'r tabl ar y dudalen nesaf yn dangos sut mae pob cam yn integreiddio gyda'u gilydd:

| | PNP | Gordewdra | Llesiant mewn ysgolion | Iechyd Meddwl | Tai | Cenedlaethau'n cyd-fyw | Dinasyddiaeth Weithredol | Model gofal | Rhwydweithiau cefnogaeth | Gwytnwch yr ecosystem | Dylunio a Chynllunio | Deunyddiau Adnewyddadwy | Teithio Llesol / Cynaliadwy | Addysg gynaliadwyedd | Bargen Ddinesig | Cysylltiadau Busnes | Trafnidiaeth Wledig | Rhwydweithiau Busnes | Canolfannau Rhagoriaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| PNO | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Gordewdra | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Llesiant mewn ysgolion | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Iechyd Meddwl | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Tai | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Cenedlaethau'n cyd-fyw | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Dinasyddiaeth Weithredol | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Model gofal | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Rhwydweithiau cefnogaeth | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Gwytnwch yr ecosystem | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Dylunio a Chynllunio | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Deunyddiau Adnewyddadwy | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Teithio Llesol / Cynaliadwy | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Addysg gynaliadwyedd | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Bargen Ddinesig | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Cysylltiadau Busnes | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Trafnidiaeth Wledig | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Rhwydweithiau Busnes | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Canolfannau Rhagoriaeth | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |

# Amcanion Llesiant – Cynnydd hyd yma

Mae amcanion a chamau Llesiant y BGC wedi eu gosod yn y tablau isod. Mae'r camau sydd wedi eu blaenoriaethu ar gyfer 2018-19 i'w gweld mewn llythrennau bras ac mae manylion am y cynnydd sydd wedi ei wneud tuag at gyflawni pob un o'r camau wedi eu cynnwys.

Mae'r Cynllun Llesiant yn nodi mewn manylder pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd er mwyn "dod o hyd" i'r dystiolaeth ar gyfer pob amcan a "diffinio" ymateb.

## Amcan Llesiant 1 - Darparu'r dechrau gorau posib mewn bywyd i blant a phobl ifanc

| Nodau Llesiant y mae'r amcan yn cyfrannu atynt | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymru lewyrchus (1) | Cymru gydnerth (2) | Cymru iachach (3) | Cymru sy'n fwy cyfartal (4) | Cymru o gymunedau cydlynus (5) | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu (6) | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang (7) |
| Er mwyn medru sicrhau cyfleoedd cyflogaeth a chyfrannu tuag at Gymru sy'n ffynnu, mae'n hanfodol bod pobl ifanc yn gallu datblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt ar gyfer y dyfodol. Mae eu hiechyd meddwl a'u hiechyd corfforol yn allweddol er mwyn eu galluogi i gyflawni eu potensial a thyfu'n oedolion iach sy'n rhan o Gymru iachach, ac mae cynyddu cyfranogaeth mewn chwaraeon yn cyfrannu at ddiwylliant bywiog hefyd. Mae'n hanfodol bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael yr un mynediad at addysg, yr un cyfleoedd ac yn cael y dechrau gorau mewn bywyd. Bydd hyn yn helpu pobl ifanc i gyfrannu tuag at eu cymunedau mewn ffordd gadarnhaol wrth iddynt ddod yn oedolion, gan helpu i ddatblygu Cymunedau Cydlynus. | | | | | | |

| Gweithio tuag at yr atebion | | | |
|---|---|---|---|
| Bydd y BGC yn canolbwyntio ar: | Cysylltiadau rhwng yr amcanion | Nodau | Effaith |
| **Mynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a phroblemau sy'n parhau o genhedlaeth i genhedlaeth o fewn teuluoedd.** | | **1, 3, 4, 5** | **Yr hirdymor** |
| Gweithio er mwyn mynd i'r afael â anweithgarwch a gordewdra er mwyn gwella iechyd a llesiant cenedlaethau'r dyfodol | | 3, 5, 6 | Yr hirdymor |
| Gweithio i wneud yn siŵr bod ysgolion a gwasanaethau plant yn canolbwyntio ar lesiant ac | | 1, 3, 4 | Canol Tymor |

| | | | |
|---|---|---|---|
| yn defnyddio ddull sy'n canolbwyntio ar lawer mwy na chanlyniadau academaidd yn unig. | | | |
| **Cefnogi cadernid plant a phobl ifanc mewn perthynas â'u hiechyd meddwl a'u llesiant emosiynol.** | | **3, 4** | **Tymor byr** |

## Cam wedi ei flaenoriaethu - Mynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a phroblemau sy'n parhau o genhedlaeth i genhedlaeth o fewn teuluoedd.

**Pam ein bod yn gwneud hyn?**

Drwy'r Asesiad Llesiant daeth i'r amlwg bod plant sy'n profi plentyndod anodd ac o ansawdd gwael yn fwy tebygol o ymddwyn mewn ffordd sy'n niweidio eu hiechyd yn ystod llecyndod, a gall hyn yn eu hun arwain at salwch a chlefydau yn nes ymlaen yn eu bywydau. Gall hyn barhau i ddigwydd o genhedlaeth i genhedlaeth. Gall atal y profiadau yma, neu leihau eu heffaith fod o fudd i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

**Deall y broblem**

Gall amlygiad i brofiadau niweidiol mewn plentyndod (PNPs), megis profi trais yn y cartref neu gamddefnyddio sylweddau neu alcohol, newid y ffordd y mae ymennydd plant yn datblygu gan eu gwneud yn fwy tebygol o fabwysiadu ymddygiadau sy'n niweidio eu hiechyd.

**Beth yr ydym yn ei wneud**

Yn Sir Fynwy, mae'r ymateb i hyn yn ymwneud â chael dealltwriaeth o effaith PNP o fewn ein cymunedau a chydweithio ag ystod eang o bartneriaid er mwyn datblygu dull hirdymor er mwyn atal y problemau , gan gymryd cymhlethdod y materion dan sylw i ystyriaeth.

Gweithred bwysig sydd wedi ei chyflawni yw datblygu 'ymwybyddiaeth o PNP' ymysg holl bartneriaid y BGC a sefydliadau eraill. Er mwyn cyflawni hyn cynhaliwyd gweithdy 'meddwl drwy systemau', mewn cydweithrediad â Cymru Well Wales, Hwb PNP a holl bartneriaid y BGC ym mis Hydref 2018. Mae'r gweithdy yma wedi bod yn sail i gynllun gweithredu a fydd yn sicrhau bod gan y BGC a'r partneriaid ymateb ac adnoddau integredig a chyson er mwyn eu galluogi i ganolbwyntio ar ymyrraeth ataliol a lliniarol. Bydd hyn yn galluogi plant a theuluoedd i gael gafael ar gefnogaeth sy'n gwbl integredig ar draws asiantaethau / adrannau a chael budd o wasanaeth rhannu gwybodaeth di-dor.

Mae hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o PNP wedi cael ei ddarparu gan yr Hwb PNP a gan y Tîm Gweithredu'n Gynnar, i ardaloedd sydd wedi eu targedu ar draws Sir Fynwy.

Yr ail weithred oedd adolygu polisïau holl bartneriaid y BGC a chanddynt oblygiadau ar gyfer PNP. Mae pob sefydliad sy'n rhan o'r BGC wedi cael cais i adolygu eu polisïau er mwyn nodi pa rai y bydd angen cynnal asesiad PNP arnynt a gwneud yn siŵr bod y gofynion priodol wedi eu cynnwys yn yr asesiad er mwyn ein galluogi i ystyried ac adlewyrchu ar hawliau plant.

Yn drydydd, mae gwaith mapio a sgopio yn digwydd ar draws Sir Fynwy er mwyn dod i ddeall faint o wasanaethau ieuenctid a darpariaeth sydd ar gael i bobl ifanc. I gefnogi hyn mae gwaith tebyg yn digwydd o fewn holl ysgolion Sir Fynwy er mwyn deall pa systemau a phrosesau sydd mewn lle er mwyn adnabod ac ymateb i bryderon ynghylch PNP. Y bwriad yw y bydd y gweithredoedd yma'n ei gwneud yn haws i bob plentyn gael mynediad at oedolyn y maent yn ymddiried ynddynt.

Mae natur trawsbynciol y cam hwn yn creu cysylltiad naturiol gyda Phartneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc. Yma, rydym yn ystyried cael cynrychiolaeth ar y Panel Cymorth Cynnar er mwyn gwneud yn siŵr bod y panel yn addas i ddelio â chyfeiriadau sy'n cael eu gwneud, a'r mathau gwahanol o opsiynau ymyrraeth sydd ar gael ar gyfer teuluoedd a phlant.

.

**Beth fyddwn ni'n ei wneud nesaf**

Byddwn yn parhau i ddod o hyd i dulliau addas o ymyrryd ac yn gwneud newidiadau i systemau er mwyn lleihau a lliniaru effaith profiadau niweidiol mewn plant ar unigolion, teuluoedd a chymunedau, a sicrhau bod gan yr holl bartneriaid adnoddau mewn lle er mwyn rhoi'r rhaglen ymyrraeth ar waith gan weithio i leihau'r galw yn y dyfodol.

## Cam wedi ei flaenoriaethu - Cefnogi cadernid plant a phobl ifanc mewn perthynas â'u hiechyd meddwl a'u llesiant emosiynol.

**Pam ein bod yn gwneud hyn?**

Mae iechyd a lles plant a phobl ifanc yn gyfansoddyn hanfodol, nawr ac ar gyfer y dyfodol, er mwyn cyflawni pwrpas clir y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o adeiladu cymunedau cynaliadwy a chydnerth o fewn Sir Fynwy.

Mae rhoi'r dechrau gorau posib mewn bywyd i blant a phobl ifanc yn flaenoriaeth. Mae iechyd meddwl iach yn galluogi plant a phobl ifanc i ddatblygu sgiliau i'w galluogi i ymdopi â phrofiadau niweidiol yn eu bywydau, a thyfu'n oedolion cyflawn, iach sy'n gallu ac sy'n fodlon cyfrannu at gymdeithas yn ogystal â magu eu teuluoedd eu hunain i wneud yr un fath.

Ar lefel genedlaethol, mae problemau iechyd meddwl yn effeithio o gwmpas 1 o bo 10 plentyn a pherson ifanc, ac erbyn iddynt fod yn 14 oed bydd hanner y problemau iechyd meddwl wedi cychwyn. Mae'r rhain yn cynnwys iselder, gorbryder ac anhwylder ymddygiad, ac fel arfer, ymateb uniongyrchol i'r hyn sy'n digwydd yn eu bywydau yw hyn. Mae'r Asesiad Llesiant, ymgynghoriad gyda phlant a phobl ifanc, a thystiolaeth leol arall yn dangos bod plant a phobl ifanc sy'n byw yn Sir Fynwy'n cael yr un anawsterau a phlant a phobl ifanc mewn ardaloedd eraill, a phenderfynwyd gwneud y cam yma'n flaenoriaeth allweddol am fod angen i nifer o asiantaethau eraill ei flaenoriaethu hefyd a gweithio gyda ni arno er mwyn cael effaith. Am y rheswm yma, mae cysylltiad agos rhwng y cam yma a'r cam sy'n ymwneud â PNP.

**Deall y broblem / cyfle**

Mae'n cael ei gydnabod bod angen ymrwymiad a chynnwys pawb sy'n darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc os ydym am newid a gwella iechyd meddyliol a lles plant a phobl ifanc. Mae'r rhain yn cynnwys addysg, gwasanaethau iechyd meddwl a iechyd corfforol, tai, swyddogaethau awdurdod lleol sy'n cynnwys hamdden a gwasanaethau cymdeithasol, y system cyfiawnder troseddol, yn ogystal â theuluoedd a gwarchodwyr. Dull cydgysylltiedig ac integredig yw'r unig ffordd y gallwn ddarparu system gefnogaeth sy'n canolbwyntio ar y plentyn.

Yn ôl gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y maes iechyd meddwl plant a phobl ifanc, mae llesiant emosiynol, gwytnwch ac ymyrraeth gynnar yn faes annatblygedig, ac felly mae angen i gyrff cyhoeddus a chyrff gwirfoddol gychwyn gweithio gyda'u gilydd, gyda chefnogaeth gwasanaethau arbenigol mewn iechyd meddwl plant a phobl ifanc, sy'n delio gyda'r plant a phobl ifanc mwyaf cymhleth. Dyma'r maes y gall partneriaid BGC gydweithio'n fwyaf effeithiol arno.

**Beth yr ydym yn ei wneud?**

Mae Panel Ymyrraeth Gynnar amlasiantaethol wedi ei sefydlu, sy'n delio gyda atgyfeiriadau plant a phobl ifanc sydd angen help a chefnogaeth, ac yn gweithredu arnynt yn gyflym ar sail unigolyn. Bydd y panel yn dod yn rhan annatod o arferion gwaith, bydd adnoddau digonol yn cael eu darparu a bydd y panel yn cael ei optimeiddio er mwyn cwrdd â'r galw amrywiol am ymyrraeth gynnar, gyda mewnbwn cyson gan sefydliadau perthnasol.

Mae'r BGC yn cefnogi datblygiad a gweithrediad y system integredig llesiant emosiynol a meddyliol ar gyfer plant a phobl ifanc, pan-Gwent, sy'n defnyddio model a ddatblygwyd ac ariannwyd drwy broses Cronfa Trawsnewid Llywodraeth Cymru, sy'n cael ei ddefnyddio ar draws Gwent, ac sydd wedi ei selio ar ddull sy'n seiliedig ar leoedd er mwyn datblygu ardaloedd integredig.

Mae tîm integredig yn cael ei sefydlu, a fydd wedi ei leoli yng Nghanolfan Iechyd Cil-y-coed, a fydd yn cael ei dreialu fel model gwaith ar gyfer De Sir Fynwy.

Mae Partneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc yn cael ei datblygu er mwyn dod â phartneriaid allweddol at eu gilydd i arwain ar weithrediad cynllun a fydd yn cwrdd â'r blaenoriaethau, gan gynnwys iechyd a llesiant meddyliol plant a phobl ifanc.

Mae'r BGC yn gweithio ar wella mynediad i chwaraeon, hyfforddiant a gweithgareddau cymunedol, er mwyn galluogi plant a phobl ifanc ar draws Sir Fynwy i fanteisio'n llawn ar yr holl weithgareddau sydd ar gael i'w cefnogi. Gweithgareddau sy'n **cynnwys** plant a phobl ifanc yn rheolaidd er mwyn dod i ddeall eu profiadau a gwneud gwelliannau yn seiliedig arnynt.

**Beth fyddwn ni'n ei wneud nesaf?**

Mae'r cynllun gweithredu'n ymateb i gymhlethdod ffactorau cydgysylltiol sy'n cael effaith ar ein gallu i gyflawni'r cam yma'n effeithiol, ac mae'n diffinio elfennau o'r gwaith sydd angen ei wneud. Bydd cynnydd yn cael ei wneud fel a ganlyn:

- Gwreiddio'r Panel Ymyrraeth Gynnar yng ngwaith pob dydd
- Rhoi system integredig llesiant emosiynol a meddyliol ar gyfer plant a phobl ifanc, pan-Gwent, ar waith yn rhagweithiol, gan sicrhau ei fod yn rhan o ddatblygiad dull sy'n seiliedig ar leoedd i ddatblygu 'ardaloedd integredig'

- Cefnogi a chyfrannu at ddatblygiad dull y tîm integredig sef model sy'n seiliedig ar leoedd, sy'n cael ei dreialu yn ardal Cil-y-coed
- Defnyddio cydweithrediad Partneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc i adnabod, cynllunio a chyflawni camau gweithredu a fydd yn cyfrannu at y cam yma
- Gweithio'n agos gyda phartneriaid i wneud yn siŵr bod trafnidiaeth fforddiadwy, hawdd cael ato ar gael i alluogi plant a phobl ifanc i fanteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael iddynt
- Parhau i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a defnyddio eu safbwyntiau a'u profiadau i siapio gwasanaethau
- Llunio cynllun hyfforddi priodol ar gyfer yr holl bartneriaid
- Sicrhau bod cysylltiadau cryf yn cael eu gwneud a'u cynnal gyda'r cam sy'n ymwneud â PNP, ac os yn bosib cytuno ar gamau gweithredu i'w cyflawni ar y cyd
- Manteisio i'r eithaf ar gysylltiadau a synergedd gyda chamau eraill o fewn Cynllun Llesiant Sir Fynwy.

# Amcan llesiant 2 - Ymateb i'r her sy'n gysylltiedig â newid demograffig

## Nodau Llesiant y mae'r amcan yn cyfrannu atynt

| Cymru lewyrchus (1) | Cymru gydnerth (2) | Cymru iachach (3) | Cymru sy'n fwy cyfartal (4) | Cymru o gymunedau cydlynus (5) | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu (6) | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang (7) |
|---|---|---|---|---|---|---|

Er mwyn creu cymunedau cydlynus sy'n rhoi cyfleoedd cyfartal i bobl o bob oed fyw a gweithio yn Sir Fynwy, mae'n hanfodol bod tai addas a fforddiadwy ar gyfer pawb ar gael. Bydd gan gymuned gydlynus gyfleusterau yn eu lle i ofalu am bobl o bob oed. Er bod cyflogaeth yn allweddol i Gymru lewyrchus, mae gwirfoddoli a dinasyddiaeth weithredol yn chwarae rôl allweddol wrth adeiladu cymunedau a gwella iechyd.

## Gweithio tuag at y ateb

| Bydd y BGC yn canolbwyntio ar: | Cysylltiadau rhwng yr amcanion | Nodau | Effaith |
|---|---|---|---|
| **Ail edrych ar y ddarpariaeth o dai a'r math o stoc sydd ar gael er mwyn gwneud yn siŵr bod tai addas a fforddiadwy ar gael i grwpiau o bob demograffeg** | | **1, 3, 4, 5** | **Yr hirdymor** |
| Dysgu o ymarfer da mewn mannau eraill er mwyn edrych ar sut y gall y gwahanol genedlaethau fyw ochor yn ochor, nawr ac yn y dyfodol | | 4, 5 | Canol Tymor |
| **Hybu dinasyddiaeth weithredol drwy wirfoddoli, bancio-amser, unigolion yn cyfnewid sgiliau a chyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol** | | **1, 3, 5** | **Tymor byr** |
| Datblygu model gofal sydd wedi ei adeiladu ar lesiant a gofalu am ein gilydd yn hytrach nag ar ddarpariaeth gofal ffurfiol | | 3, 4, 5 | Canol Tymor |
| Datblygu rhwydweithiau, ar gyfer pobl o bob oed, sy'n cefnogi llesiant o fewn eu cymunedau lleol, gan gynnwys presgripsiynu cymdeithasol (gweler eglurhad uchod) | | 1, 3, 4, 5 | Tymor byr |

## Cam wedi ei flaenoriaethu - Hybu dinasyddiaeth weithredol drwy wirfoddoli, bancio-amser, unigolion yn cyfnewid sgiliau a chyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol

**Pam ein bod yn gwneud hyn?**

Dangosodd yr Asesiad Llesiant yn Sir Fynwy bod lefelau uchel o gyfalaf cymdeithasol yn y Sir a bod cyfle i fanteisio i'r eithaf ar hyn drwy gynyddu cyfranogiad mewn dinasyddiaeth weithredol a gwirfoddoli er budd llesiant unigolion a chymunedau.

**Deall y broblem / cyfle**

Mae Dinasyddiaeth Weithredol (yr hyn sy'n dal cymdeithas at ei gilydd) a **chynnwys** gwirfoddolwyr, yn chwarae rhan gynyddol bwysig mewn sicrhau llesiant unigolion a chreu cymunedau cydnerth a chydlynus yn Sir Fynwy. Mae partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) yn Sir Fynwy wrthi'n gweithio ar ystod eang o ymyriadau gwirfoddoli. Trwy ddulliau cydweithredol, mae cyfle i sylweddoli faint o fudd sydd i gyfalaf cymunedol yn Sir Fynwy drwy integreiddio gweithgareddau, fel y'u diffinnir yn Strategaeth Gwirfoddoli BGC Sir Fynwy.

**Beth yr ydym yn ei wneud?**

Trwy'r trefniadau llywodraethol sy'n bodoli o fewn y bartneriaeth Ymuno a Gwirfoddoli yn Sir Fynwy (JUVM) mae cynnydd wedi ei wneud o ran ymestyn cynrychiolaeth y Bartneriaeth i adlewyrchu a chynnwys aelodaeth y BGC fel llwyfan i ddatblygu Strategaeth Wirfoddoli BGC Sir Fynwy.



*Digwyddiad Glanhau Cymunedol ym Mharc Sglefrio'r Fenni*

Mae'r JUVM wedi cytuno ar weledigaeth ar gyfer y strategaeth sydd wedi ei chefnogi gan y BGC 'Caiff Sir Fynwy ei diffinio gan gymdeithas lle mae Dinasyddiaeth Weithredol yn rhan o fywyd bob dydd, a chaiff gwirfoddolwyr brofiadau gwirfoddoli safon uchel sy'n saff, yn gynhwysol a sy'n cael effaith gadarnhaol ar lesiant'

Mae'r bartneriaeth JUVM wedi cefnogi a hwyluso gwaith mapio er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r dimensiynau o raglenni gwirfoddoli sy'n bodoli ar hyn o bryd ar draws y Sir. Mae cyfres o ddigwyddiadau dinasyddiaeth weithredol a digwyddiadau 'dweud diolch' wedi cael eu cynnal, ac mae bancio amser a chyfnewid sgiliau rhwng unigolion hefyd wedi digwydd.

Mae cynllun gweithredu wedi ei lunio sy'n rhoi sylw i ffrydiau gwaith fydd yn sicrhau bod cynnydd pellach yn cael ei wneud tuag at gyflawni'r cam.

**Beth fyddwn ni'n ei wneud nesaf?**



*Hyfforddiant ar gyfer gwirfoddolwyr fel rhan o'r rhaglen Arweinyddiaeth Gymunedol*

Mae cynllun gweithredu'r cam wedi diffinio elfennau o Strategaeth Wirfoddoli BGC Sir Fynwy'n effeithiol, a bydd cynnydd yn cael ei wneud o hyn allan ar agweddau o'r strategaeth fel a ganlyn:

- Drafftio Strategaeth Wirfoddoli
- Creu Siarter Wirfoddoli, a fydd yn cynnwys cyfres o egwyddorion a gwerthoedd sy'n cefnogi cydweithio ac integreiddio rhwng partneriaid y BGC
- Datblygu Polisi Gwirfoddoli BGC Sir Fynwy
- Datblygu a rhoi Cynllun Hyfforddiant ar gyfer Gwirfoddolwyr ar waith
- Edrych ar gyfleoedd i integreiddio'r systemau gwirfoddoli corfforaethol a ddefnyddir gan bartneriaid y BGC, er enghraifft systemau digidol
- Dulliau **integredig** sy'n adlewyrchu sut y mae gwirfoddolwyr yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi, er enghraifft digwyddiadau Gwobrwyo Gwirfoddolwyr a thystysgrifau cydnabyddiaeth
- Cynllun cyfathrebu sy'n hybu dinasyddiaeth weithredol
- Gweithio mewn dull rhagweithiol er mwyn rhoi methodolegau cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol ar waith
- Digwyddiad dysgu i gynyddu ein dealltwriaeth o ddinasyddiaeth weithredol a'r rhyngwyneb sy'n bodoli gyda gwirfoddoli
- Manteisio i'r eithaf ar integreiddio, ar gysylltiadau ac ar synergedd gyda chamau eraill o fewn Cynllun Llesiant Sir Fynwy.

## Cam wedi ei flaenoriaethu - Roi sylw, unwaith eto, i'r ddarpariaeth a'r math o stoc tai sydd ar gael er mwyn gwneud yn siŵr bod tai addas a fforddiadwy ar gael i grwpiau o bob demograffeg

Mae'r rhan yma'n edrych ar y cam uchod ar y cyd â'r cam ar "Sicrhau bod polisïau dylunio a chynllunio yn cefnogi cymunedau cryf, bywiog a iach sy'n gwneud lles i bobl ac i'r amgylchedd" gan bod y ddau'n cael eu gweithredu ar y cyd.

**Pam ein bod yn gwneud hyn?**

Amlygodd yr Asesiad Llesiant rai o'r heriau a rhai o'r cyfleoedd sy'n ymwneud â demograffeg newidiol Sir Fynwy. Mae tueddiadau'r dyfodol yn awgrymu y bydd cynnydd yn y gymhareb o bobl hyn i bobl ifanc. Mae cyfartaledd pris tai yn £307,600 (mis Medi 2018), sy'n uwch na chyfartaledd y DU, ac yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd i'r sir fod yn le hyfyw a fforddiadwy i bobl ifanc fyw a gweithio ynddi.

Gall system drafnidiaeth wael arwain at unigedd, sy'n gwaethygu os nad oes teulu'n byw'n gyfagos. Mae ffactorau megis diffyg tai fforddiadwy a chyfleoedd gwaith yn cynyddu'r pwysau ar deuluoedd i wasgaru. Mae safon y cartref yn cael effaith fawr ar iechyd; mae cartref cynnes, sych yn cael ei gysylltu â gwell iechyd, yn enwedig ymysg pobl hyn.

**Deall y broblem**

Mae gennym boblogaeth sy'n heneiddio a diffyg cymharol ymysg pobl 20-40 oed. Mae hyn yn effeithio ar gynaliadwyedd ein cymunedau a pha mor ddeniadol yw'n heconomi. Mae prisiau tai wedi codi i fwy na 9 gwaith yn uwch na chyflog cyfartalog preswylwyr Sir Fynwy. Mae cael gwared â thollau Pont Hafren wedi cael effaith nodedig ar brisiau tai yn y tymor byr; ni wyddom beth fydd yr effaith tymor hir ond mae disgwyl i'r sir barhau i fod yn leoliad deniadol ar gyfer y rheiny sydd eisiau ail-leoli.

Cyfyngwyd twf yn y Cynllun Datblygu Lleol i 4,500 o gartrefi newydd dros ddeng mlynedd (2011-2021); mae pob un o'r safleoedd sydd wedi eu penodi yn dod yn eu blaen, ond ar raddfa arafach na'r disgwyl. Mae tai fforddiadwy newydd, yn amlach na pheidio'n cael eu hadeiladu ochor yn ochor â thai'r farchnad agored gan nifer gyfyngedig o adeiladwyr mawr. Mae Polisi Tai Fforddiadwy Cyngor Sir Fynwy'n nodi bod angen i gyfran o'r tai newydd sy'n cael eu hadeiladu fod yn dai fforddiadwy, ac yn ôl ein polisi mae angen i'r cartrefi fforddiadwy yma fod yn amhenodol eu deiliadaeth, wedi eu hadeiladu i gydymffurfio â Gofynion Ansawdd Datblygu Llywodraeth Cymru, ac fe ddylai'r math o dai sy'n cael eu hadeiladu adlewyrchu'r math o dai y mae galw amdanynt. Mae tri Landlord Cymdeithasol yn gweithredu o fewn y sir, ac mae'r tri wedi cychwyn adeiladu tai i'r farchnad agored am faint elw is na chwmnïau cyfyngedig cofrestredig, gan helpu i gynyddu nifer y tai fforddiadwy sydd ar gael.



*Cynlluniau ar gyfer cartrefi Newydd sy'n rhan o Gronfa Tai Arloesol Llywodraeth Cymru*

**Beth yr ydym yn ei wneud**

Mae Cymdeithas Tai Sir Fynwy (MHA), gan weithio mewn partneriaeth gyda Ysgol Pensaernïaeth Cymru a Chyngor Sir Fynwy, wedi cyflenwi ei chyfran gyntaf o gartrefi sydd wedi eu hariannu gan Gronfa Tai Arloesol Llywodraeth Cymru (safleoedd yng Nghil-y-coed a'r Fenni).

Mae Cyngor Sir Fynwy a Melin Homes wedi bod yn gweithio ar y cyd am beth amser i ddylunio cynllun sy'n parchu ei amgylchedd gwledig, yn creu ymdeimlad o gymuned a pherthyn a sydd ag

egwyddorion sy'n gyfeillgar i ddimensia'n sail iddo. Mae hyn wedi arwain at ganiatâd cynllunio ar gyfer 290 o gartrefi a chartref gofal yn Portskewett. Mae perthynas cydweithrediadol hirdymor a dyhead i adeiladu er mwyn sicrhau twf economaidd sydd o fudd i bawb wedi bod wrth galon y dull yma.



*Darlun artist o'r datblygiad newydd yn Crick Road, Portskewett*

Mae dull 'creu lleoedd' a chanllawiau cynllunio ychwanegol Seilwaith Gwyrdd, sydd wedi ennill sawl gwobr, yn arwain at ganlyniadau gwell. Mae'r dull hwn wedi cael sylw mewn polisi cynllunio cenedlaethol diweddar (Polisi Cynllunio Cymru, rhifyn 10, Rhagfyr 2018).

Mae Cyngor Sir Fynwy wedi cychwyn gweithio ar Gynllun Datblygu Lleol a fydd yn siapio datblygiad yn y sir hyd at 2033. Trwy'r gwaith yma mae materion sy'n effeithio ar ein cymunedau wedi dod i'r amlwg ac mae ymgynghoriad wedi bod arnynt. Mae gweledigaeth hirdymor ac amcanion bellach wedi cael eu gosod er mwyn rhoi sylw i'r materion a ddaeth i'r amlwg. Mae perchnogion tir / adeiladwyr wedi argymell safleoedd i gael eu cynnwys yn y CDLl. Mae cyfres o weithdai ar gyfer Aelodau wedi cael eu cynnal er mwyn casglu gwybodaeth a fydd yn sail i'r CDLl.

Mae Cyngor Sir Fynwy wedi cytuno, mewn egwyddor, i sefydlu Cwmni Adeiladu. Rhan o gylch gwaith y cwmni fyddai tarfu ar y farchnad dai ac adeiladu tai, gan gynnwys tai i'w rhentu am ostyngiad o rent y farchnad.

Mewn perthynas â gwella pa mor gysurus a diogel yw'r stoc dai gyfredol, mae Cymdeithas Tai Sir Fynwy wedi cwblhau'r gwaith o ddod â'i holl stoc i fyny i Safon Ansawdd Tai Cymru. Mae gennym hefyd gynllun sefydledig a llwyddiannus yn ei le ar gyfer rhoi grantiau i dalu am addasiadau mewn cartrefi (Grant Cyfleusterau i'r Anabl a Grantiau Diogelwch yn y Cartref), sy'n galluogi preswylwyr i fyw'n iach ac yn annibynnol yn eu cartrefi ac **atal** damweiniau.

**Beth fyddwn ni'n ei wneud nesaf?**

Mae'r camau allweddol nesaf yn cynnwys:

- Parhau i weithio ar y CDLl, y mae disgwyl iddo gael ei fabwysiadu ym mis Rhagfyr 2021.
- Cytuno ar y lefel o dwf a dosbarthiad gofodol, rhannu'r safleoedd ar gyfer datblygiad a drafftio polisïau i siapio datblygiad yn y dyfodol Cynhaliwyd gweithdy ar gyfer Aelodau ar bolisïau tai fforddiadwy ym mis Mai 2019. Bydd y CDLl yn cynnwys tystiolaeth bellach ar anghenion seilwaith a chyflenwad tai a hyfywedd. Bydd gweithdy arall ar gyfer Aelodau yn cael ei gynnal er mwyn ystyried opsiynau ar gyfer polisi ymyrraeth arall a fydd yn dylanwadu ar yr hyn a fydd yn cael ei adeiladu
- Bydd adroddiad pellach ar y cynnig i sefydlu Cwmni Adeiladu yn cael ei ystyried gan Gyngor Sir Fynwy ym mis Medi 2019.
- Bydd ystyriaeth yn cael ei roi i opsiynau cyflenwi eraill megis Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol, yn ogystal â rôl y sector cyhoeddus fel perchennog tir.

- Mae gan Melin 834 o dai fforddiadwy yn Sir Fynwy'n barod, ac ar hyn o bryd maent yn adeiladu ar bedwar safle arall, gyda chyfanswm o £87 miliwn yn cael ei fuddsoddi yn Sir Fynwy dros y 5 mlynedd nesaf; Uchelgais MHA yw adeiladu 100 o gartrefi yn Sir Fynwy erbyn 2022 ac mae'n gobeithio dyrchafu nifer o safleoedd drwy'r CDLl gan gynnwys estyniad trefol i'r Fenni.
- Yn ddiweddar treialodd Melin brosiect a oedd yn rhoi cyfle i deulu ifanc brynu eu cartref cyntaf drwy gynllun 'rhentu i berchnogi'.
- Mae Melin hefyd wedi rhoi cyfle i bedwar person ifanc yn Sir Fynwy gael profiad gwerthfawr o weithio ar safle adeiladu drwy ein cynllun rhannu prentisiaethau – Y Prentis.
- Mae MHA, Cyngor Sir Fynwy ac Ysgol Pensaernïaeth Cymru'n cydweithio ar brosiectau Rhaglen Tai Arloesol posib ar gyfer y dyfodol, gan edrych ar themâu adeiladu modiwlar, safleoedd cyfyngedig, costau byw isel a lleihau carbon.

# Amcan Llesiant 3 - Amddiffyn a gwella gwytnwch ein hamgylchedd naturiol tra rhwystrir ac addasir i effaith newid hinsawdd

## Nodau Llesiant y mae'r amcan yn cyfrannu atynt

| Cymru lewyrchus (1) | Cymru gydnerth (2) | Cymru iachach (3) | Cymru sy'n fwy cyfartal (4) | Cymru o gymunedau cydlynus (5) | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu (6) | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang (7) |
|---|---|---|---|---|---|---|

Yn ogystal â bod yn allweddol o ran llesiant amgylcheddol, mae Amgylchedd Gydnerth yn hanfodol i'r economi leol, i iechyd meddyliol a chorfforol ac i adeiladu cymunedau cydlynus. Er mwyn bod yn gyfrifol ar lefel fyd-eang, mae angen i ni weithio gyda'n gilydd i leihau'r carbon a'r llygredd yr ydym yn ei greu drwy fynd i'r afael â thrafnidiaeth gynaliadwy a newid y ffordd yr ydym yn defnyddio a chreu ynni. Elfen allweddol o'r amcan yma yw gweithio gyda phlant a phobl ifanc i'w helpu i ddeall eu rôl o ran edrych ar ôl ein hamgylchedd, lleihau yr effaith yr ydym yn ei gael ar yr amgylchedd a sylweddoli pwysigrwydd "meddwl ar lefel fyd-eang ac ymddwyn ar lefel leol".

## Gweithio tuag at yr ateb

| Bydd y BGC yn canolbwyntio ar: | Cysylltiadau rhwng yr amcanion | Nodau | Effaith |
|---|---|---|---|
| **Gwella gwydnwch yr ecosystemau drwy weithio ar raddfa ehangach (tirlun) i reoli bioamrywiaeth a manteisio i'r eithaf ar fuddiannau megis rheolaeth llifogydd naturiol** | | **1, 2, 3** | **Yr hirdymor** |
| **Sicrhau bod polisi dylunio a chynllunio'n cefnogi cymunedau cryf, bywiog a iach sy'n gwneud lles i bobl a'r gymuned.** | | **1, 2, 3, 5, 7** | **Yr hirdymor** |
| Galluogi cynlluniau ynni adnewyddol, yn enwedig cynlluniau y mae cymunedau'n gyfrifol amdanynt, a dod o hyd i atebion gan gynnwys dulliau storio, ynni craff, gwres a chyflenwad lleol. | | 1, 5, 7 | Tymor byr |
| Galluogi teithio rhwydd a thrafnidiaeth gynaliadwy i wella ansawdd yr aer a chreu manteision eraill i iechyd. | | 1, 5, 6, 7 | Canol Tymor |
| Gweithio gyda phlant a phobl ifanc i godi eu hymwybyddiaeth, gwella eu dealltwriaeth, eu hannog i gyfrannu at ddatblygiad cynaliadwy a'u gwneud y ddinasyddion byd-eang cyfrifol at y dyfodol. | | 1, 2, 3, 4, 5, 6, 7 | Yr hirdymor |

## Cam wedi ei flaenoriaethu - Amddiffyn a gwella gwytnwch ein hamgylchedd naturiol tra'n lliniaru ac addasu i effaith newid hinsawdd

**Pam ein bod yn gwneud hyn?**

Mae'r Asesiad Llesiant yn nodi mai un o asedau mwyaf Sir Fynwy, heb os, yw ei thirlun a'i hamgylchedd naturiol. Mae adnoddau naturiol megis aer, tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a phridd yn diwallu ein hanghenion sylfaenol ac yn rhoi i ni fwyd ac ynni, ymysg pethau eraill. Mae gan sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru botensial anferth i ddefnyddio'r pŵer sydd ganddynt rhyngddynt i newid arferion gweithio er mwyn adnabod peryglon, cyfleon a ffyrdd cyson ac integredig o weithredu sy'n angenrheidiol os ydym am warchod a gwella gwydnwch ein hamgylchedd naturiol, nid yn unig er ein mwyn ni, ond er mwyn cenedlaethau'r dyfodol.

**Deall y broblem**

Mae nifer o heriau'n wynebu ein hamgylchedd naturiol – mae newid hinsawdd, adeiladu ac arferion rheoli tir newidiol yn heriau y a allai wynebu ein hadnoddau naturiol. Mae rheolaeth gynaliadwy o'n adnoddau naturiol yn anelu at fynd i'r afael â'r problemau a'r heriau yma drwy reoli adnoddau naturiol Cymru mewn ffordd gydgysylltiedig sy'n cyflawni canlyniadau gwirioneddol a gwell ar gyfer yr amgylchedd, y bobl, yr economi a'n cymunedau.

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) wedi ei hadeiladu ar y syniad bod gweithio mewn dull mwy integredig yn hanfodol i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor. Mae Deddf yr Amgylchedd yn helpu i gynllunio a rheoli adnoddau naturiol Cymru ar lefel leol ac ar lefel genedlaethol, drwy ddatblygu Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol (Cenedlaethol) er mwyn darparu asesiad cenedlaethol a thracio'r cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at gyflawni rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol. Mae'r adroddiadau'n darparu tystiolaeth ar gyfer y Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol.

**Beth yr ydym yn ei wneud?**

Bydd Datganiad Ardal yn cael ei baratoi a'i gyhoeddi gan Gyfoeth Naturiol Cymru mewn cydweithrediad ag eraill, i hwyluso'r dasg o roi'r Polisi Adnoddau Naturiol ar waith. Bydd Datganiadau Ardal yn sylfaen dystiolaeth bwysig i gyrff sy'n gweithredu oddi mewn i ardal benodol gan y bydd y datganiadau'n cynnwys gwybodaeth am adnoddau naturiol yr ardal a'r blaenoriaethau ar gyfer eu rheoli mewn ffordd gynaliadwy. Bydd y broses o lunio Datganiad Ardal yn ein galluogi i edrych ar sut y gallwn integreiddio ein gwaith er mwyn gwella gwydnwch ein ecosystemau a gwella'r buddion llesiant y maent yn eu rhoi. Bydd y broses hefyd yn helpu cyrff cyhoeddus i ystyried ymarfer da o ran rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy.

Ar y cyd ag arbenigwyr mewnol, partneriaid allanol a rhanddeiliaid, bydd y broses o lunio Datganiad Ardal yn gyfle i nodi blaenoriaethau, peryglon a chyfleoedd ar gyfer rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol. Fel rhan o hyn rydym yn datblygu themâu sy'n dod i'r amlwg, a fydd yn fan cychwyn ar gyfer trafodaeth ar sut i fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol a'r heriau a nodwyd yn y Polisi Adnoddau Naturiol:

**Grid Gwyrdd Gwent**: Nodi cyfleoedd i wella iechyd a chysylltedd ecolegol ein hardaloedd sydd wedi eu diogelu o fewn tirlun ehangach yr amgylchedd naturiol a'r amgylchedd adeiledig.

• **Climate Ready Gwent:** Nodi cyfleoedd ar raddfa tirlun i addasu a lliniaru'r hinsawdd drwy ddefnyddio dull ecosystemau.

**Iach ac Egnïol:** Gweithio gyda'r system gofal sylfaenol a gofal cymdeithasol i ddatblygu a rhoi gwasanaethau ac ymyriadau ar waith sydd yn canolbwyntio ar ddefnyddio'r amgylchedd naturiol.

**Ffyrdd o weithio:** Edrych i mewn i gysylltiadau, rhwydweithiau a mecanweithiau sy'n seiliedig ar leoedd, ac ystyried eu cryfhau er mwyn rhoi Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy ar waith yn Ne Ddwyrain Cymru

**Natur yn newid**
Llawer llai o bryfaid haf diwethaf
Pryfaid yn deffro yn gynt yn y flwyddyn
Blodau'n blaguro'n gynt
Os yw blodau'n blaguro'n gynt bydd ffynhonnell neithdar hanfodol pryfaid yn cael ei effeithio
Ni ellir cymryd yn ganiataol y bydd gwenoliaid a clychau'r gog yn cael eu gweld
Roedd blagur i'w weld ym mis Chwefror eleni

*Sylwadau gan y rheiny a gymrodd ran yng ngweithdy Climate Ready Monmouth*

Un enghraifft o brosiect yw Prosiect Rheoli Perygl Llifogydd mewn Ffordd Naturiol yn Nyffryn Gwy Isaf. Rhan allweddol o'r gwaith yma oedd gweithio gyda Sefydliad Gwy a Wysg i gynnal ymweliadau i ffermydd er mwyn rhoi cyngor a thrafod cynlluniau. Bydd cynlluniau'n cael eu creu a fydd yn tynnu sylw at ffyrdd o atal llifogydd, a byddant yn cael eu rhoi i ffermwyr. Bydd y canfyddiadau'n cael eu defnyddio i greu cyfleon ymarferol ar gyfer ymyrryd. Mae'r gwaith wedi cynnwys profi strwythur pridd a deunydd sych pan yn briodol. Rydym wedi bod yn llwyddiannus gyda chais i'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy i weithio gyda chwe ffermwr ychwanegol yn nalgylch Angiddy, a pharhau i weithio gyda Sefydliad Gwy a Wysg.

Mae mwy o waith wedi bod yn mynd ymlaen gan gynnwys gwaith ar fapio a rheoli chwyn ymledol ac mae rhai dulliau naturiol o reolaeth llifogydd wedi cael eu treilau. Bydd y prosiect yn rhedeg nes mis Rhagfyr 2019. Rydym yn sylweddoli bod yr amserlen yn dyn, ac o ganlyniad, mae'n annhebygol y bydd modd datrys problemau mynediad sylweddol a rhoi Rheolaeth Naturiol o Lifogydd (NFM) a Seilwaith Gwyrdd ar raddfa eang ar waith. Fodd bynnag, mae'r prosiect yn rhoi cyfle i ni feddwl, datblygu syniadau a dod o hyd i atebion i broblemau gwybyddus. Mae hefyd yn rhoi cyfle i ni dreialu gwaith cyfalaf a allai gael ei ddefnyddio fel enghraifft o ymarfer da a ffordd o ddysgu ar gyfer rowndiau cyllido a phrosiectau mwy hirdymor yn y dyfodol.



*Ymweliad safle i edrych ar gynllun peilot posib ar gyfer rheolaeth llifogydd naturiol*

**Beth fyddwn ni'n ei wneud nesaf?**

- Ar hyn o bryd rydym yn datblygu Proffiliau Ardal a fydd yn goladiadau byw o'r wybodaeth amgylcheddol sydd ar gael ar adnoddau naturiol yr ardal ar hyn o bryd yn ogystal â'r manteision sy'n deillio o'r adnoddau naturiol rheiny. Bydd y rhain yn rhoi cipolwg i ni ar y data gorau sydd ar gael ar ein hadnoddau naturiol, ar ein ecosystemau ac ar y blaenoriaethau o ran rhwydweithiau sydd wedi eu nodi ar gyfer gwella eu gwydnwch pan ar gael, a

bydd hyn yn ein helpu i weithio gyda phartneriaid i ddeall: Beth sy'n arbennig ac arwyddocaol ynglŷn â phob ecosystem; gwydnwch yr ecosystem dan sylw; a sut mae'r ecosystem yn cael ei reoli ar hyn o bryd.

- Bydd y wybodaeth yma, wrth gael ei gyfuno gyda gwybodaeth leol a data, yn ein helpu i ateb y cwestiwn sylfaenol nesaf ar gyfer y Datganiad Ardal, sef, ble 'rydym eisiau cynyddu gwydnwch a pham?'
- Ym mis Mai 2019 pleidleisiodd Cyngor Sir Fynwy'n unfrydol i ddatgan Argyfwng Hinsawdd a datblygu cynllun gweithredu i leihau allyriadau carbon deuocsid i net sero erbyn 2030. Bydd hyn yn cael effaith sylweddol ar weithgareddau a pholisïau'r Cyngor, ond bydd hyn hefyd yn cael effaith ar waith gyda phartneriaid y BGC, ac eraill wrth i ni wreiddio datgarboneiddio yn ein gwaith ac addasu i newid hinsawdd.

# Amcan Llesiant 4 - Datblygu cyfleoedd i gymunedau a busnesau fod yn rhan o sir sydd â chysylltiadau da ac sy'n ffynnu'n economaidd.

## Nodau Llesiant y mae'r amcan yn cyfrannu atynt

| Cymru lewyrchus (1) | Cymru gydnerth (2) | Cymru iachach (3) | Cymru sy'n fwy cyfartal (4) | Cymru o gymunedau cydlynus (5) | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu (6) | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang (7) |
|---|---|---|---|---|---|---|

Er mwyn cyfrannu at Gymru lewyrchus, mae angen gwneud cysylltiadau rhwng addysg a busnes er mwyn gwneud yn siŵr bod pobl ifanc yn barod ar gyfer swyddi'r dyfodol. Bydd Bargeinion Dinesig yn gyfrannwr allweddol i Gymru Lwyddiannus, ond bydd adeiladu ar gryfderoedd ein heconomi leol, ein treftadaeth a'n diwylliant yn allweddol hefyd, er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfraniad y maent yn ei wneud i'r economi. Bydd seilwaith trafnidiaeth gynaliadwy yn allweddol o ran sicrhau bod pawb yn medru cyrraedd swyddi a hyfforddiant ac o ran lleihau allyriadau carbon.

## Gweithio tuag at yr ateb

| Bydd y BGC yn canolbwyntio ar: | Cysylltiadau rhwng yr amcanion | Nodau | Effaith |
|---|---|---|---|
| Manteisio i'r eithaf ar y cyfleon fydd ar gael i Sir Fynwy fel rhan o Bargen Ddinesig | | 1, 4, 5 | Canol Tymor |
| Gwell dealltwriaeth o'r gwaith fydd ar gael yn y dyfodol a sicrhau bod cysylltiadau hyfforddiant ac addysg yn eu lle er mwyn deall pa sgiliau sydd eu hangen ar weithlu Sir Fynwy ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. | | 1 | Canol Tymor |
| **Datblygu technolegau newydd er mwyn gwella trafnidiaeth wledig** | | **1, 4, 5, 7** | **Canol Tymor** |
| Hwyluso gwell rhwydweithio busnes er mwyn rhannu gwybodaeth a chael mynediad i dechnoleg a chyfleon rhanbarthol i alluogi busnesau i dyfu | | 1 | Tymor byr |
| Edrych ar bosibiliadau o ran canolfannau rhagoriaeth arbenigol o fewn Sir Fynwy e.e. bwyd / lletygarwch, amaeth, twristiaeth a thechnoleg | | 1, 2, 6 | Canol Tymor |

## Cam wedi ei flaenoriaethu – Gweithio tuag at atebion sydd wedi eu selio ar dechnoleg er mwyn gwella trafnidiaeth mewn ardaloedd gwledig

**Pam ein bod yn gwneud hyn?**

Mae'r Asesiad Llesiant yn nodi bod prinder trafnidiaeth gyhoeddus, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, yn ei gwneud hi'n anodd i bobl gael mynediad at waith, gwasanaethau a chyfleusterau. Mae'r asesiad hefyd yn tynnu sylw at gyfleoedd posib a allai godi drwy Bargen Ddinesig Prifddinas-Rhanbarth Caerdydd a datblygiadau mewn technoleg.

**Deall y broblem**

Mae cyllidebau o fewn y sector cyhoeddus yn lleihau, ac mae hyn yn golygu bod llai o arian ar gael i sybsideiddio gwasanaethau trafnidiaeth traddodiadol. Mae hon yn broblem fawr yn Sir Fynwy, lle gwelir rhai siwrneiau ar drafnidiaeth gyhoeddus er mwyn cyrraedd rhai gwasanaethau lleol yn cymryd dros ddwy awr. O ganlyniad, mae preswylwyr yn ddibynnol iawn ar geir preifat, sydd yn ddrud o ran arian ac o ran yr amgylchedd. Mae breuder a chyflyrau hirdymor yn cyfyngu ar allu llawer o bobl hyn i yrru, ac ni all eraill fforddio rhedeg car. Mae hyn yn arwain at fwy o unigrwydd a chynnydd yng nghostau gofal iechyd a gofal cymdeithasol. Gellid osgoi hyn pe byddai gwell cyfleoedd i deithio a chysylltu ag eraill. Yn y cyfamser, ni all nifer o bobl ifanc fforddio rhedeg car, ac mae hyn yn lleihau'r cyfleoedd gwaith a chyfleoedd hyfforddi sydd ar gael iddynt.

**Beth yr ydym yn ei wneud?**

Heb gynnydd mawr mewn gwariant, does dim ffordd hawdd o ddatrys y broblem hon. Mae ymchwil wedi dangos bod cludiant ar gael, trafnidiaeth gymunedol er enghraifft, a'u bod yn cludo preswylwyr yn ôl eu hangen, ond does dim perthynas ddigon effeithiol rhwng y ddarpariaeth â'r galw. Bydd y BGC yn ceisio gweld a all technoleg chwarae rhan wrth geisio datrys y broblem, er mwyn gallu gwneud gwell defnydd o'r adnoddau sydd ar gael oddi mewn i'r system gyfredol a'u gwneud yn opsiynau cynaliadwy yn y tymor hir.




*Cwmnïau GovTech llwyddianus*

Cyflwynwyd bid i Swyddfa'r Cabinet GovTech Catalyst a luniwyd er mwyn cymell cwmnïau technoleg i ddod o hyd i atebion arloesol i broblemau'r sector cyhoeddus. Roedd y bid yn llwyddiannus, a chafwyd cefnogaeth gan Wasanaeth Digidol y Llywodraeth ac Innovate UK yn ogystal â chyllid o hyd at £1.25 miliwn ar gyfer cwmnïau i'w


hannog i gynnwys cymunedau wrth geisio dod o hyd i atebion i'r broblem o unigrwydd a thrafnidiaeth mewn ardaloedd gwledig a threialu'r opsiynau posib.

Lansiwyd Monmouthshire's challenge ym mis Gorffennaf 2018 gan gynnig potiau o £50,000 i gwmnïau i gynnal R&D a chynnwys cymunedau yn y broses o gyd-ddylunio datrysiadau. Cyflwynodd 57 cwmni eu syniadau a dewiswyd saith o'r rhain i gymryd rhan yn rhan gyntaf yr ymchwil rhwng mis Rhagfyr 2018 a mis Mawrth 2019. Roedd y cwmnïau a gafodd eu dewis yn cynnwys Zipabout Mobility, GPC Systems a Behavioural Insights Team.




*Gyrrwr gwirfoddol gyda Bridges Centre*

Y tu hwnt i gyfraniadau aelodau'r BGC, roeddem hefyd yn gweithio ar greu y math o ddiwylliant ac amgylchedd a fyddai'n galluogi'r sector cyhoeddus a phrosiectau sy'n cael eu harwain gan y gymuned i ffynnu. Y Magor Action Group on Rail (MAGWYR) sydd wedi adnabod y galw a'r manteision a fyddai'n deillio o greu gorsaf newydd a fyddai'n gwasanaethu Magwyr a Undy. Mae'r grŵp yn cynnal gwaith ymchwil, yn codi arian ac yn datblygu cynllun busnes ar gyfer hyn, er mwyn ffurfio rhan o Fetro De Cymru. Yn y cyfamser mae'r Bridges Car Share Scheme sy'n rhoi cerbydau a gyrwyr gwirfoddol mewn cysylltiad â phobl sydd angen cefnogaeth ychwanegol i gyrraedd siopau, i gyrraedd apwyntiadau a gwasanaethau lleol. Mae Bridges wedi **cydweithio** gyda un o gwmnïau GovTech ar gynnig ac hefyd wedi ehangu eu cynllun i'r Fenni, Cas-gwent a Chil-y-coed. Mae mentrau eraill yn bodoli hefyd, sydd â'r potensial i gyfrannu, yn y tymor hir, at system drafnidiaeth eco gynaliadwy, gan gynnwys treialu'r defnydd o hydrogen cars in Abergavenny gan Riversimple




*One of the GovTech pilots*

**Beth fyddwn ni'n ei wneud nesaf?**

Os fydd y cynlluniau GovTech sy'n cael eu treialu'n dangos digon o addewid, yna gallai dau o'r rhain gael gwobr o hyd at £500,000 gan Swyddfa'r Cabinet i droi eu syniadau'n brototeip gweithredol a fydd yn cael ei brofi mewn cymunedau yn Sir Fynwy. Yn 2020 byddai'r BGC yn cael y cyfle i gomisiynu cyflwyno hyn ar raddfa eang.

Mae gan Sir Fynwy'r potensial i fod yn rhywle y gallwch fyw heb gar, gyda gwasanaeth trafnidiaeth sydd wedi ei integreiddio'n llawn, sy'n fwy gwyrdd, sy'n gynaliadwy a sy'n manteisio i'r eithaf ar botensial pob model trafnidiaeth gan greu manteision cynaliadwy i lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.

# Craffu ar Amcanion Llesiant

**Pwyllgor Dethol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus**

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn dibynnu'n fwy na dim arall ar rôl y llywodraeth leol i graffu er mwyn sicrhau gwelliant parhaus. Yn Sir Fynwy mae Pwyllgor Dethol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus penodedig wedi ymgymryd â'r swyddogaeth hon.

Mae cylch gorchwyl y pwyllgor yn cynnwys craffu ar:

- Berfformiad y BGC o ran casglu data, dadansoddi tystiolaeth, ymgysylltu â'r gymuned a gwneud yn siŵr bod y bartneriaeth yn cyflawni'r nodau llesiant;
- Gweithredoedd a phenderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan y BGC; y fframwaith gynllunio strategol a chorfforaethol; y systemau, prosiectau a rhaglenni sydd yn eu lle i gyflawni'r nodau llesiant; a threfniadau llywodraethol, cyllidol, caffael a chynllunio gweithlu sydd yn eu lle er mwyn eu cefnogi.
- Argymhellion a wnaed gan y Comisiynydd, y Gweinidog ac Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Yn ystod 2018-19 mae Pwyllgor Dethol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi craffu ar y cynllun llesiant drafft, gan wahodd partneriaid allweddol y BGC a chadeirydd y BGC i drafod blaenoriaethau allweddol ar gyfer cyd-weithredu / cydweithio. Wedi i'r cynllun llesiant gael ei gymeradwyo, mae'r pwyllgor wedi gwneud partneriaid allweddol sy'n arwain ar y chwe cam sydd wedi ei flaenoriaethu yn unol â chynllun y BGC yn atebol am y cynnydd sydd wedi ei wneud, gan wneud yn siŵr bod yr hyn sydd wedi ei gyflawni yn cydymffurfio â'r egwyddor datblygiad cynaliadwy.

Mae'r pwyllgor wedi dechrau gweithredu'r Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer Craffu a gafodd ei baratoi gan swyddfa'r Comisiynydd, a bydd pob aelod yn cael hyfforddiant ar sut i weithredu'r fframwaith yn ystod Gorffennaf 2019. Gellir dod o hyd i'r fframwaith ar:

https://futuregenerations.wales/resources_posts/future-generations-framework-for-scrutiny/

Gellir dod o hyd i adroddiadau a chofnodion cyfarfodydd Pwyllgor Dethol y BGC ar:
https://democracy.monmouthshire.gov.uk/

## Partneriaid y BGC yn gweithio'n well gyda'u gilydd

Mae'r Cynllun Llesiant hefyd yn nodi rhai meysydd sefydliadol y dylai partneriaid y BGC weithio'n well gyda'u gilydd arnynt er mwyn gwneud cynnydd. Mae enghreifftiau o lle gwelir hyn yn cynnwys:

### Galluogi cymunedau i helpu eu hunain e.e. adnabod asedau lleol a'u datblygu'n unol â'r angen, gan eu gweld yn bartneriaid cyfartal a gwerthfawr yn y sir





Mae'r Tîm Datblygu Cymunedau a Phartneriaethau, a gyflogir gan Gyngor Sir Fynwy yn ymrwymedig i adeiladu cymunedau cynaliadwy a chydnerth drwy weithio mewn partneriaeth a defnyddio dull sydd wedi ei selio ar asedau. Mae'r tîm yn galluogi sefydliadau sy'n bartneriaid ar y BGC a'r gymuned i ddod yn agosach at eu gilydd er mwyn sicrhau bod y pum ffordd o weithio, y cyfeirir atynt yn y Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol, wrth galon y gwaith y mae'r BGC yn ei wneud.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r tîm wedi gweithio ar ddatblygu rhwydweithiau cymunedol cryfach o wirfoddolwyr, dinasyddion gweithredol a grwpiau trydydd sector sy'n angerddol dros eu cymuned a sy'n sylweddoli faint o wahaniaeth y gallent ei wneud – rhai o asedau mwyaf gwerthfawr Sir Fynwy yw'r bobl sy'n byw yma.



Mae tri digwyddiad rhwydweithio cymunedol wedi eu cynnal yn y Fenni, Trefynwy a Chas-gwent, lle gwelwyd dros 130 o stondinau gyda gwirfoddolwyr yn gweithio arnynt ac oddeutu 600 o ymwelwyr i gyd. Rhoddodd hyn gyfle i roi cydnabyddiaeth i'r unigolion a'r grwpiau sy'n chwarae rhan amlwg a holl bwysig o fewn ein cymunedau, a rhoddodd gyfle i ni gryfhau ein cysylltiadau, fel partneriaid ar y BGC, gyda'n 'asedau' (sef y bobl yn yr achos hwn) ac edrych ar ffyrdd o weithio ochr yn ochr â hwy, a'u cefnogi i gario mlaen i wneud y pethau da y maent yn ei wneud ar gyfer y bobl a'r lleoedd o fewn ein cymunedau.

Mae'r Tîm hefyd wedi cymryd rhan mewn sioe deithiol o'r enw 'Syniadau Mawr', a'u galluogodd i fynd allan ar draws y sir â chwrdd a siarad ag aelodau'r cyhoedd a'r gymuned ehangach am y pethau sydd o bwys iddynt hwy.  Gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar asedau, gofynnwyd i bobol 'pe byddai tri person arall yn barod i helpu, beth fyddech chi'n hoffi ei wneud er mwyn gwneud eich cymuned hyd yn oed yn well'. Mae'r ymateb i'r cwestiwn wedi bod yn hynod o gadarnhaol, wrth i ni weld aelodau o'r gymuned yn cyflwyno syniadau a phrosiectau yr oeddent yn teimlo'n ddigon angerddol drostynt i gymryd rhan a helpu er mwyn eu datblygu'n bellach.  Mae'r gwaith yma wedi ei gydnabod gan y BGC, ac maent yn awyddus i gyfalafu ar hyn drwy dyfu a chefnogi dinasyddiaeth weithredol ar draws y sir. Efallai mai hadau syniadau yn unig a gofnodwyd yn ystod y digwyddiadau 'Syniadau Mawr', ond gyda gallu partneriaid y BGC i gefnogi, datgloi a galluogi cymunedau i weithredu ar yr hyn sy'n bwysig iddynt, gallent fod yn allweddol i greu sir gryf fydd yn llawn adnoddau am flynyddoedd i ddod.









## Sicrhau bod cyfathrebu clir yn digwydd rhwng y BGC, y Llywodraeth Leol, Cynghorau Tref a Chynghorau Cymuned a'r gymuned

Mae'r Tîm Datblygu Cymunedau a Phartneriaethau wedi bod yn gweithio gyda Chynghorau Tref a Chynghorau Cymuned i ddatblygu cyfarfodydd clwstwr lleol a chreu rhwydwaith o glercod Cynghorau Tref. Nod y gefnogaeth hon yw cynorthwyo'r Cynghorau Tref rheiny a chanddynt ddyletswyddau o dan y Ddeddf i gysoni'r gwaith y maent yn ei wneud yn eu cymunedau gyda nodau llesiant ehangach y Sir ac adeiladu perthnasau gwell gyda'r BGC.  Mae'r tîm, mewn partneriaeth â Chymunedau Tref a Chymunedau Cymunedol, hefyd wedi cynnal digwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned a digwyddiadau rhwydwaith gwirfoddolwyr ar draws y sir er mwyn cryfhau cysylltiadau gyda'r sector gwirfoddol, gan gydnabod pwysigrwydd y rôl y mae Cynghorau Cymuned a Chynghorau Tref yn ei chwarae yn eu gwahanol ardaloedd a'r ymwybyddiaeth a'r wybodaeth sydd ganddynt am eu cymunedau.  Roedd y digwyddiadau rhain yn gynhwysol i bob partner, ac unwaith eto, rhoddwyd cyfle i Gynghorau Cymunedol a Chynghorau Tref gryfhau eu cysylltiadau ac adeiladu ar y gwaith hollbwysig y mae gwirfoddolwyr cymunedol, dinasyddion gweithredol a grwpiau trydydd sector yn ei wneud yn eu hardaloedd.

Mae hyn wedi, a bydd yn parhau i alluogi clercod i rannu ymarfer da a syniadau ynglŷn â sut y gallent gasglu gwybodaeth a rhoi gwybod i'r BGC a chyrff rheoleiddio eraill amdano. Mae disgwyl y bydd y rhwydwaith yma, hefyd, yn galluogi'r Cynghorau Tref i ddod yn fwy o ran o ffrydiau gwaith sy'n cael eu datblygu o dan y BGC a chryfhau'r cysylltiad a'r cydweithio rhwng yr holl bartneriaid yn ehangach.

Mae Cynghorau Tref sy'n disgyn o dan ddyletswyddau'r Ddeddf wedi paratoi adroddiadau blynyddol sy'n tynnu sylw at y gwaith y maent wedi bod yn ei wneud hyd yma i gyfrannu at gyflawni dyhead y Cynllun Llesiant. Mae Cynghorau Tref yn awyddus i edrych yn fanylach ar y rôl y maent yn ei chwarae o fewn y sir a chwarae rhan fwy blaenllaw wrth i'r BGC ddatblygu rhai o'i ffrydiau gwaith yn fwy penodol, gan groesawu'r ddeddfwriaeth a ffyrdd o weithio. Bydd y Tîm Datblygu Cymunedau a Phartneriaethau yn parhau i weithio'n agos gyda Chynghorau Tref er mwyn helpu i leihau'r bwlch rhwng cymunedau lleol a'r BGC ac i wella cyfathrebu, cydweithio a'r ffordd y mae cymunedau'n cael eu cynnwys ymhellach.

## Datblygu gwell cysylltiadau rhwng gwasanaethau, sefydliadau a grwpiau cymunedol, er mwyn cyflawni dull mwy cydgysylltiedig a chynhwysol

Yn ogystal â'r rhwydweithiau o wirfoddolwyr, rhwydweithiau Cynghorau Tref a Chynghorau Cymuned a strwythurau partneriaeth ffurfiol y BGC, mae nifer o fforymau cyhoeddus wedi cael eu strwythuro er mwyn i lais pobl hyn, pobl ifanc a phobl sydd ag anableddau gael ei glywed yn uniongyrchol gan y BGC. Mae'r fforymau'n awtonomaidd o ran yr hyn y maent eisiau eu trafod, ac mae'r agenda'n cael ei gosod gan y bobl sy'n mynychu'r fforymau. Cefnogir y strwythur a'r hwyluso gan y Tîm Datblygu Cymunedau a Phartneriaethau a swyddogion ychwanegol o Gyngor Sir Fynwy sydd â rôl i'w chwarae o ran helpu a chefnogi grwpiau gyda nodweddion gwarchodedig.

Mae'r fforymau'n rhoi cyfle i breswylwyr siarad yn uniongyrchol gyda gwasanaethau mewn cyfarfod agored, fel y gall pobl herio gwasanaethau yn uniongyrchol a chael mewnbwn i benderfyniadau y mae cyrff cyhoeddus yn eu gwneud. Mae'r fforwm hefyd yn rhoi cyfle i bartneriaid y BGC a chyrff cyhoeddus ymgynghori, darparu gwybodaeth a chael deialog gyda phreswylwyr ar faterion a allai effeithio arnynt. Mae unrhyw weithredoedd sy'n deillio o'r fforymau yn cael eu gosod o fewn tirlun partneriaeth y BGC er mwyn i grwpiau swyddogion traws-asiantaethol fedru dilyn i fyny a gweithredu arnynt, os yw hynny'n bosib neu'n briodol; mae hyn yn galluogi partneriaid y BGC i glywed beth sy'n bwysig i bobl yn ein cymunedau a chwilio am ffordd ymlaen sy'n gadarnhaol ac yn fwy cynhwysol.

## Cydgysylltu data, gwybodaeth a systemau i alluogi asiantaethau i gael gwell dealltwriaeth o'r heriau a dod o hyd i gyfleon.

O fewn Sir Fynwy mae gwaith yn cael ei dreialu sy'n cynyddu'r data agored sy'n cael ei gyhoeddi a gwneud yn siŵr ei fod ar gael drwy gyfrwng dangosfyrdd. Bydd hyn yn galluogi'r cyhoedd i dracio mesurau allweddol sy'n mesur cynnydd yn erbyn yr amcanion llesiant.

Mae nifer o bartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yng Ngwent yn aelodau o bwyllgor gwaith Prifddinas-Rhanbarth Caerdydd sy'n datblygu'r cyfleon sy'n codi o ganlyniad i ddata agored. Maent yn gweithio tuag at greu un porth ble gall preswylwyr a busnesau gael mynediad at lith o ddata er mwyn gwneud gwasanaethau yn atebol yn ogystal â'u cynorthwyo i ddatblygu apiau a fydd yn ychwanegu gwerth dinesig.

## Adnabod cyfleon ar gyfer caffael o fewn y sector cyhoeddus er mwyn gwella'r gefnogaeth i ddatblygiad gwasanaethau a chynnyrch lleol a bod yn gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Ar draws gwaith y Grŵp Strategol Asesiad Llesiant Gwent (GSALG) mae cyfleon wedi codi i dendro ar y cyd ar gyfer gwaith fydd yn ein helpu i gyflawni elfennau o'r Cynllun Llesiant. Mae GSALG wedi bod yn llwyddiannus wrth sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru a phartneriaid BGC ar draws Gwent (5 awdurdod lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru, Heddlu Gwent, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Mae'r math yma o gaffael cydweithredol wedi creu arbedion maint a byddant yn gwneud yn siŵr bod dull cydlynol rhanbarthol yn cael ei fabwysiadu.


Yn yr un modd, drwy GSALG cafodd ymgynghorwyr eu caffael ar y cyd i weithio ar y prosiect Climate Ready Gwent, er mwyn dysgu ar y cyd am addasu'r hinsawdd.

# Gwaith Rhanbarthol

## Cymunedau Hapus

Yn 2018 cytunodd y pum Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o fewn rhanbarthau Gwent ar y cyd i ddefnyddio adnoddau Cymunedau Hapus i fesur a deall llesiant eu poblogaeth  Mae Cymunedau Hapus yn darparu dau adnodd: y Mynegai Llefydd Llewyrchus yn Nghymru sy'n mesur yr amodau lleol ar gyfer llesiant cymunedol a'r Pwls Hapusrwyddd sy'n mesur llesiant personol.

Mae Mynegai Llefydd Llewyrchus yn defnyddio nifer o ddangosyddion o ffynonellau data amrywiol er mwyn deall ac asesu'r amodau lleol ar gyfer llesiant. Yn dilyn gwaith cychwynnol yng Ngwent ar y Mynegai Llefydd Llewyrchus, mabwysiadodd Data Cymru'r adnodd a'i ymestyn i gynnwys holl awdurdodau lleol Cymru. Cyhoeddodd Data Cymru ddatganiad cyntaf Mynegai Llefydd Llewyrchus Cymru ym mis Ebrill 2018, cyhoeddwyd yr ail ddatganiad ym mis Ebrill 2019. Mae'r mynegai yn fframwaith o ddangosyddion ar lefel awdurdod lleol sy'n creu darlun o ardal, wedi ei grynhoi o dan bennawd eang amodau lleol, cynaliadwyaeth a chydraddoldeb. Mae dadansoddiad llawn o'r mynegai ar gael ar www.thrivingplaces.wales isod mae'r prif ganlyniadau o fynegai 2019 ar gyfer y meysydd yn Sir Fynwy.




Mae Pwls Hapusrwydd yn mesur llesiant personol o fewn cymunedau drwy gynnal arolwg ar gyfer unigolion. Gwnaed yr arolwg ym mis Ionawr a Chwefror 2018 ar draws Gwent. Lansiwyd yr arolwg yn Sir Fynwy ar y cyd â'r ymgyrch 'Trechu'r Felan'. Gwnaed gwaith hyrwyddo helaeth a defnyddiwyd ystod eang o ddulliau i roi gwybod i breswylwyr am yr arolwg a'u hymgysylltu. Yn Sir Fynwy, cymrodd 1,148 o bobl ran yn yr arolwg.


Mae'r arolwg yn rhoi sgôr llesiant i'r bobl a gwblhaodd yr arolwg ac yn eu helpu i ddeall sut i wella eu llesiant. Mae pedair prif adran i'r arolwg:


**Cyffredinol** – canolbwyntio ar pa mor fodlon yw pobl a holi os ydynt yn teimlo bod y gweithgareddau y maent yn eu gwneud werth yr ymdrech.
**Bod –** canolbwyntio ar sut mae pobl yn meddwl ac yn teimlo am eu bywydau.
**Gwneud** – mewn perthynas â'r hyn y mae pobl yn ei wneud i gefnogi gwell llesiant.
**Cysylltu** – ymdrin â sut y mae pobl yn cysylltu ag eraill.


Gall y canlyniadau ym mhob maes ein helpu i ddeall mwy am lesiant personol, mae'r canlyniadau'n dangos bod y sgôr ar gyfer Sir Fynwy'n uwch na'r cyfartaledd ym mhob maes.


Rhedwyd The Pulse fel cynllun peilot i geisio deall pa oleuni pellach y gallai ei roi ar lesiant personol. Bydd yr hyn y byddwn yn ei ddysgu o'r prosiect yn cael ei ddefnyddio i ddylanwadu ar waith yn y dyfodol ar fesur llesiant personol.

### Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) yn mesur Llesiant




Mae rhaglen Mesur Llesiant Cenedlaethol yr ONS hefyd yn asesu llesiant personol fel rhan o'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol, mae'r graff yn dangos y canlyniadau diweddaraf (o 2017/18) ar gyfer Sir Fynwy ar gyfer rhai o'r cwestiynau perthnasol ochor yn ochor â'r canlyniadau cyfartalog ar gyfer y DU a Chymru. Dengys hyn bod ymatebion preswylwyr Sir Fynwy yn debyg iawn, neu ychydig yn uwch na phoblogaeth y DU a Chymru.

Bydd y BGC yn parhau i adolygu data a thystiolaeth ar lesiant yn Sir Fynwy ac yn adnabod ffyrdd addas o fesur, er enghraifft, tracio canlyniadau perthnasol rhaglen Mesur Llesiant Cenedlaethol yr ONS er mwyn asesu'r newidiadau dros gyfnod o amser.

## Dyfodol Gwent

Yn 2017/18 comisiynodd y BGC yng Ngwent, drwy'r Grŵp Strategol Asesiad Llesiant Gwent (GSALG), waith penodol i ddatblygu dealltwriaeth o dueddiadau'r dyfodol a fyddai, o bosib, yn effeithio ar lesiant a'r ffordd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu cyflenwi yng Ngwent, a'i ddefnyddio i ddylanwadu ar ddatblygiad cynlluniau llesiant.

Mae'r gwaith hwn wedi ei gwblhau mewn dau brif ran. Sganio'r Gorwel a Senarios:

- Sganio'r Gorwel: Mae'r gwaith yma yn adnabod tueddiadau strategol bwysig, pethau a allai amharu neu bethau a allai ysgogi newid ac maent yn darparu tystiolaeth werthfawr ar y materion rhain. Mae'r sganiau yma'n ymwneud â deg thema eang – Systemau Naturiol, Adnoddau, Technoleg, Diogelwch, Cymdeithas, Economi, Gwleidyddiaeth, Symudedd, Gofodol a Phoblogaeth.
- Senarios: Mae'r adroddiad Senarios yn defnyddio'r canfyddiadau a ddeilliodd o'r gwaith sganio gorwelion i adnabod nifer o sbardunwyr allweddol ac ansicrwydd sy'n wynebu Gwent. Bydd y dull senarios yn helpu'r BGC i feddwl am y tueddiadau yma wrth ddatblygu eu cynlluniau llesiant a beth allai eu heffaith fod.

Er mwyn cefnogi gwreiddiad y gwaith yma yng nghynlluniau llesiant BGC, cynhaliwyd Cynhadledd ar y Dyfodol ar gyfer Gwent gyfan ym mis Tachwedd 2018 i rannu prif negeseuon o'r gwaith sydd wedi ei gwblhau a chefnogi datblygiad cynlluniau llesiant y BGC drwy ddeall mwy ynglŷn a beth allai ddigwydd yn y dyfodol a beth sy'n sbarduno'r newid.

Yn dilyn y gynhadledd, cynhaliwyd gweithdy ym mhob un o bum ardal y BGC yng Ngwent. Roedd y gweithdy yn Sir Fynwy, a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2018, wedi ei deilwra ar gyfer datblygu'r ffordd yr ydym yn meddwl ar lefel leol am Gynllun Llesiant Sir Fynwy yn erbyn y sganiau gorwelion a allai gael effaith ar lesiant yn yr ardal. Mynychodd amryw o bartneriaid y BGC y sesiwn, cafodd y sesiwn ei hwyluso er mwyn adnabod y materion allweddol a ddeilliodd o'r gwaith sganio gorwelion; materion sy'n wynebu rhai camau penodol o'r cynllun llesiant. Mae hyn wedi arwain at well dealltwriaeth o dueddiadau'r dyfodol a allai gael effaith ar yr holl gamau a drafodwyd, ac mae cymryd hyn i ystyriaeth yn help mawr wrth ddatblygu'r gweithredoedd.

## Climate Ready Gwent:

Gan bod Addasu Newid Hinsawdd / Digarboneiddio yn thema sy'n flaenoriaeth i'r BGC cyfan ar draws Gwent, gwnaed y penderfyniad drwy'r grŵp swyddogion GSALG i weithio mewn cydweithrediad ar 'Climate Ready Gwent'.

Mae gwaith wedi canolbwyntio ar ddau faes: lliniaru effeithiau newid hinsawdd ac addasu i effeithiau newid hinsawdd.

### Lliniaru

Mae'r gwaith rhanbarthol sydd wedi ei wneud ar y cyd hyd yma wedi canolbwyntio ar "arddangoswr" i helpu i gefnogi'r gwaith o ddod o hyd i atebion mwy gwyrdd ar gyfer trafnidiaeth yn rhanbarth ehangach Gwent. Rhan o'r gwaith oedd sicrhau cyllid ar gyfer astudiaeth, a ariannwyd ar y cyd, ar seilwaith ar gyfer man gwefru cerbydau trydan, y gall partneriaid ei ddefnyddio i ddylanwadu ar ddatblygiad cynllun gweithredu rhanbarthol ar Gerbydau Trydan. Bydd yr astudiaeth yn edrych ar safleoedd penodol ar draws y rhanbarth sy'n



*Man gwefru ceir trydan Newydd yn y Fenni*

berchen i bartneriaid y BGC sy'n cwrdd â gofynion y Swyddfa Cerbydau Allyriadau Isel am gyllid ar gyfer cyflwyno mannau gwefru trydan – yn ei hanfod, edrych ar beth sydd angen mynd i ble. Bydd y camau nesaf yn ymwneud â pharatoi cais ar y cyd am gyllid i ariannu gosod y mannau gwefru ym meysydd parcio'r awdurdodau lleol sy'n cwrdd â'r gofynion. Cynllun ar gyfer mannau gwefru ar gyfer preswylwyr ar y stryd neu Cynllun Gwefru yn y Gweithle.



*Car hydrogen Rasa fydd yn cael ei brofi'n y Fenni'n fuan*

Mae adolygiad hefyd yn cael ei wneud o'r fflyd rhanbarthol er mwyn adnabod pa gerbydau a allai, o bosib, gael eu cyfnewid am fflyd drydan. Yn dilyn y gwaith mapio a'r dadansoddiad o fflyd gyfredol y sector cyhoeddus yng Ngwent, byddwn yn edrych am gyfleoedd i leihau allyriadau carbon drwy greu "llwybr" carbon isel, cynaliadwy ar gyfer y fflyd yng Ngwent. Bydd hyn yn golygu: Cytuno ar gyfleoedd i gyflwyno Cerbydau Isel Iawn eu Allyriadau fel rhan o rhaglen dreigl ar gyfer cyfnewid fflyd h.y. cefnogi penderfyniadau cost-effeithiol o ran caffael, rhedeg a chael gwared o fflyd y sector cyhoeddus yng Ngwent. Mae gwaith tebyg hefyd yn mynd rhagddo sy'n edrych ar y posibilrwydd o ddefnyddio cerbydau hydrogen, a rhan o'r gwaith yma fydd cynnal astudiaeth yn Sir Fynwy.

Mae canlyniadau'r meysydd gwaith yma hefyd yn bwydo i mewn ac yn hysbysu'r gwaith sy'n cael ei wneud yn Mhrifddinas-Rhanbarth Caerdydd.

## Addasu

Derbyniodd GSALG gyllid gan Lywodraeth Cymru i redeg prosiect rhanbarthol cydweithredol: **Addasu i effeithiau Newid Hinsawdd: O brofiadau byw i weithredu strategol** Mae ymgynghorwyr wedi gweithio gyda chymunedau penodol sy'n wynebu peryglon hinsawdd gwahanol (megis llifogydd, sychder, tannau gwyllt, ac ati) ac maent yn cyflwyno profiadau a hanesion y bobl mewn perthynas â newid hinsawdd er mwyn helpu i hysbysu a siapio gweithio rhanbarthol pellach. Yn Sir Fynwy, mae'r gwaith yma wedi canolbwyntio ar Drefynwy ac mae wedi ei weithredu mewn cydweithrediad â Transition Monmouth.

Mae'r prosiect, lle mae'n bosibl, wedi gwneud cysylltiadau rhwng profiadau byw pobl a'r rheiny sy'n gwneud penderfyniadau o fewn y sector cyhoeddus er mwyn dod o hyd i gyfleoedd ar gyfer dod o hyd i atebion gwahanol o ran effeithiau hinsawdd ym mhob lleoliad. Bydd canlyniadau'r project yn anelu i ddylanwadu ar bolisi ac arferion er mwyn helpu Gwent i ddod yn fwy gwydn a pharod am yr hinsawdd yn y dyfodol. Gyda'u gilydd bydd hyn yn cyfrannu tuag at weledigaeth ar gyfer cydweithrediad yn y dyfodol ar addasu i effeithiau hinsawdd yn rhanbarth Gwent.

# Sut mae pethau'n mynd?

## Dangosyddion Cenedlaethol

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi 46 o ddangosyddion cenedlaethol sy'n chwarae rôl bwysig wrth fesur y cynnydd sy'n cael ei wneud yng Nghymru tuag at gyflawni nodau llesiant. Mae'r dangosyddion wedi cael eu defnyddio hyd yma yn Sir Fynwy i helpu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i ddeall llesiant economaidd, cymdeithasol a diwylliannol o fewn y cynllun llesiant.


Er na fydd y dangosyddion cenedlaethol yn mesur perfformiad gwasanaethau cyhoeddus unigol na byrddau gwasanaethau cyhoeddus, mae'n bwysig eu bod yn cael eu hystyried gan y BGC i dracio'r cynnydd sy'n cael ei wneud yn erbyn y nodau llesiant, a defnyddio data lleol i fesur y cynnydd yn Sir Fynwy pan yn bosib.

Mar rhai o'r dangosyddion cenedlaethol, yn enwedig, yn berthnasol i'r amcanion sy'n cael eu hamlygu yng Nghynllun Llesiant Sir Fynwy.  Mae'r data diweddaraf ar gyfer y dangosyddion yma, lle mae diweddariad ar gael ar lefel sirol, i'w weld yn nhabl 1 isod. Gall cymharu'r data ar gyfer Sir Fynwy gyda'r data ar awdurdodau eraill sydd â nodweddion tebyg, fod yn ddefnyddiol. Os oes data ar gael ar awdurdodau tebyg, caiff y gymhariaeth ei gweld yn nhabl 1. Mae cymhariaeth wedi ei gwneud yn seiliedig ar yr adnodd Data Cymru, Awdurdodau Cymaradwy, ar gyfer awdurdodau yng Nghymru ac mae'r newidynnau sydd wedi eu dewis yn ymwneud â'r pwnc y mae'r dangosydd yn ymwneud ag o. Nid oes data ar gael ar gyfer pob un o'r dangosyddion felly ni ellir gwneud y gymhariaeth ar gyfer pob dangosydd.

Fel y mae'r gweithgarwch i gyflawni camau'r cynllun llesiant yn datblygu, bydd metrigau perfformiad mwy penodol, sy'n berthnasol i'r cynllun yn cael eu canfod.

## Diweddaru'r Cynllun Llesiant

Gan ddefnyddio cyllid rhanbarthol sydd ar gael, mae gwaith wedi cael ei dreialu er mwyn deall sut y gall BGC Sir Fynwy ddatblygu ffordd hygyrch o fonitro materion data allweddol (yn enwedig y data a gyhoeddwyd o dan Drwydded Llywodraeth Agored) a godwyd yn Asesiad Llesiant Sir Fynwy. Bydd yr hyn y byddwn yn ei ddysgu o'r peilot yma yn cael ei ddefnyddio i hysbysu'r gwaith a fydd yn cael ei wneud maes o law, ar ddiweddaru'r prif faterion a amlygwyd yn yr asesiad llesiant.




*Enghraifft o ddewislen o'r peilot ar ddiweddariad ar yr Asesiad Llesiant*

| Tabl 1: Dangosyddion Cenedlaethol | Ffynhonnell | Amcan cysylltiedig | Cymru | Meysydd cymaradwy tebyg | Sir Fynwy - blaenorol | Sir Fynwy - Cyfredol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Y ganran o'r oedolion sydd â llai na dau ymddygiad iach o ran eu ffordd o fyw (dim yn ysmygu, pwysau iach, yn bwyta pum ffrwyth neu lysieuyn y dydd, ddim yn yfed mwy na'r lefel a gynghorir ac yn gwneud ymarfer corff yn unol â'r canllawiau ar ymarfer corff) | National Survey for Wales | Amcan 1 a 2 | 10% (2016/17 & 2017/18) | 7% (Ceredigion)<br><br>12% (Gwynedd)<br><br>11% (Wrecsam) | Gweler cyfredol | 7% (2016/17 & 2017/18) |
| Sgôr pwyntiau 9 cyfartalog wedi'i gapio y disgyblion | Welsh Examination database | Amcan 1 a 4 | 324.1 (2018) | 333.6 (Gwynedd)<br><br>344.8 (Ceredigion)<br><br>333.7 (Powys) | 339.3 (2017) | 331.5 (2018) |
| Gwerth Ychwanegol Gros am bob awr a weithir (o'i gymharu â chyfartaledd y DU) | ONS regional Economic Analysis: Sub-regional productivity indicators | Amcan 4 | £83.6 (2017) | £91.9 (Bro Morgannwg a Chaerdydd) | £89.1 (2016 – Sir Fynwy a Chasnewydd) | £88.6 (2017 – Sir Fynwy a Chasnewydd) |
| Incwm Gwario Gros Aelwydydd y pen | ONS, gross disposable household income per head | Amcan 4 | £15,754 (2017) | £16,389 (Bro Morgannwg a Chaerdydd) | £17,135 (2015 – Sir Fynwy a Chasnewydd) | £17,292 (2017 – Sir Fynwy a Chasnewydd) |
| Y ganran o'r bobl sydd mewn gwaith | ONS, Annual Population Survey | Amcan 4 | 73.1% (2018) | 80.4% (Bro Morgannwg)<br><br>76.8% (Powys)<br>72.6% (Gwynedd) | 77.7% (2017) | 78.0% (2018) |

| Tabl 1: Dangosyddion Cenedlaethol | Ffynhonnell | Amcan cysylltiedig | Cymru | Meysydd cymaradwy tebyg | Sir Fynwy - blaenorol | Sir Fynwy - Cyfredol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Y ganran o'r bobl sy'n byw mewn aelwydydd mewn amddifadedd materol | National Survey for Wales | Amcan 1, 2 a 4 | 16% (2017/18) | 13% (Bro Morgannwg)<br><br>12% (Powys)<br><br>15% (Gwynedd) | 12% (2016/17) | 14% (2017/18) |
| Y lefelau o lygredd nitrogen deuocsid (NO2) yn yr aer | Department for Environment, food and rural affairs | Amcan 3 | 9 (2017) | 6 (Sir Ddinbych)<br><br>4 (Ceredigion)<br><br>7 (Conwy) | 11 (2016) | 8 (2017) |
| Uchafswm (yn MW) yr offer ynni adnewyddadwy sydd wedi cael ei osod | Department for Business, Energy and Industrial Strategy | Amcan 2 a 3 | 3192.9 (2017) | 106.1 (Sir Ddinbych)<br><br>187.1 (Ceredigion)<br><br>754.7 (Conwy) | 79.5 (2016) | 84.9 (2017) |
| Y ganran o'r bobl sy'n fodlon ar eu gallu i gyrraedd/ cael at y cyfleusterau a'r gwasanaethau y mae eu hangen arnynt. | National Survey for Wales | Amcan 1, 2, 3 a 4 | 80% (2018/19) | 78% (Sir Benfro)<br><br>65% (Ynys Môn)<br><br>63% (Gwynedd) | Ddim ar gael | 79% (2018/19) |

| Tabl 1: Dangosyddion Cenedlaethol | Ffynhonnell | Amcan cysylltiedig | Cymru | Meysydd cymaradwy tebyg | Sir Fynwy - blaenorol | Sir Fynwy - Cyfredol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Y ganran o'r bobl sy'n fodlon ar yr ardal leol fel lle i fyw | National Survey for Wales | Amcan 1, 2, 3 a 4 | 85% (2018/19) | 90% (Sir Benfro)<br><br>89% (Ynys Môn)<br><br>89% (Gwynedd) | 91% (2016/17) | 92% (2018/19) |
| Y ganran o'r bobl sy'n gwirfoddoli. | National Survey for Wales | Amcan 1, 2, 3 a 4 | 28% (2017/18) | Data 2018/19 ddim ar gael | 36% (2016/17) | Data 2018/19 ddim ar gael |
| Y ganran o'r bobl sy'n cyfranogi mewn gweithgareddau chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos | Adult – National Survey for Wales | Amcan 2 a 3 | 32% (2018/19) | 34% (Ceredigion)<br><br>37% (Gwynedd)<br><br>30% (Wrecsam) | 38% (2017/18) | 38% (2018/19) |
| | Children – Sport Wales, school sport survey | Amcan 1 a 3 | 47.6% (2018) | 52.5% (Ceredigion)<br><br>48.8% (Gwynedd)<br><br>44.2% (Wrecsam) | 48.8% (2015) | 45.0% (2018) |

# Camau Nesaf

Ni fydd adeiladu cymunedau cryf yn Sir Fynwy yn broses gyflym, mae'r Asesiad Llesiant a'r Cynllun Llesiant, yn ogystal â'r adroddiad blynyddol cyntaf hwn yn gerrig milltir arwyddocaol ar y ffordd tuag at ddod yn fwy cynaliadwy. Dros y cyfnod nesaf byddwn yn parhau i ddatblygu a rhoi gweithredoedd ar waith, gyda ymrwymiad cadarn gan bartneriaid a sefydliadau, er mwyn cymryd y camau nesaf ar y siwrne hon.

Wrth inni weithredu'r cynllun, mae wedi dod i'r amlwg bod y problemau yr ymdrinnir â hwy o fewn y Cynllun Llesiant yn broblemau cymhleth dros ben, ac mewn sawl achos, mae mwy o waith a mwy o ddadansoddi angen ei wneud cyn y gellir gwneud penderfyniad ar sut yn union i gyflawni'r weithred. Bydd hyn yn sicrhau bod y BGC yn deall cymhlethdod materion a heriau allweddol o fewn y Cynllun Llesiant ac yn cytuno ar y ffordd orau o ymateb ar y cyd, fel gwasanaethau cyhoeddus. Mae nifer o'r camau sy'n cael eu cynnig yn heriol ac mae angen gwneud newidiadau mawr i'r ffordd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio gyda'u gilydd, ac er bod cynnydd yn cael ei wneud, mae'n annhebygol y bydd y camau'n cael eu datrys yn llwyr ac yn effeithiol heb ystyriaeth fanwl o'r opsiynau sydd ar gael.

Mae cynlluniau gweithredu manwl a threfniadau rheoli rhaglen yn cael eu datblygu er mwyn cofnodi'r hyn a fydd yn cael ei wneud gan y partneriaid, y sefydliadau, yr unigolion a'r rhwydweithiau sy'n dod â dealltwriaeth, heriau adeiladol, data ac atebion at eu gilydd er mwyn cyflawni'r cam. Bydd y cynlluniau a'r trefniadau wedi eu dylunio er mwyn canolbwyntio ar yr effaith, a chofnodi os oes angen i weithgaredd ganolbwyntio ar leoliadau penodol, neu ganolbwyntio ar grwpiau cymdeithasol gwahanol, neu ganolbwyntio ar bobl sydd â nodweddion gwarchodedig. Bydd y cynlluniau a'r trefniadau rhain hefyd yn dangos nad yw'n bosib i'r holl weithgareddau gael eu cyflawni ar yr un pryd – ac yn dangos na fydd angen yr un faint o adnoddau ac amser er mwyn cyflawni pob cam. Bydd angen dilyniant o waith dros gyfnod y cynllun i wneud yn siŵr ei fod yn uchelgeisiol ond yn gyraeddadwy.

Bydd defnyddio dulliau rheoli rhaglen yn galluogi'r BGC i gofnodi'r hyn sy'n cael ei wneud yn ehangach gan y partneriaid i weithredu'r amcanion Llesiant, yn ogystal â darparu strwythurau er mwyn adrodd ar gynnydd a chyfathrebu. Bydd gan y BGC y gallu i lywio'r gwaith yma mewn ffordd mwy uchelgeisiol gan edrych ar y cyfleodd, ar y cyd â phartneriaeth a'r gymuned, i adolygu a yw'r gwaith yn cwrdd ag anghenion ein cymunedau neu a oes angen newid y gwaith, ac adolygu a yw arferion ac arferion gwaith angen newid.

Bydd angen defnyddio dull y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o fesur a gwerthuso perfformiad i werthuso a herio cynnydd a cherrig milltir yn y tymor byr, gan wneud yn siŵr, hefyd, bod y wybodaeth gywir yn cael ei defnyddio i dracio cynnydd yn erbyn amcanion llesant cymunedol mwy hir-dymor. Mae partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn parhau i ddatblygu'r metrig cywir ar gyfer llesiant cymunedol, a hynny ar lefelau lleol ac ar draws Gwent.

Bydd gweithio mewn partneriaeth drwy BGC Gwent yn parhau, a bydd y Tîm Datblygu Cymunedau a Phartneriaethau yn datblygu eu gwaith ymhellach gyda phartneriaid y BGC, Cynghorau Cymuned a Chynghorau Tref a phartneriaid cymunedol eraill sy'n rhan hanfodol o helpu i gyflawni'r Amcanion Llesiant.  Byddwn yn edrych ar greu cysylltiadau er mwyn gweithio mwy ar

lefel rhanbarthol a fydd yn galluogi'r BGC i gael dealltwriaeth gliriach o'r rhyngwyneb rhwng gweithgorau, byrddau a strwythurau sy'n dylanwadu neu'n cael effaith, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, ar y materion a nodir yn y cynllun llesiant.